AWDURDOD PARC CENEDLAETHOL ERYRI

DATGANIAD O GYFRIFON

AR GYFER Y FLWYDDYN YN GORFFEN 31AIN MAWRTH 2011

AWDURDOD PARC CENEDLAETHOL ERYRI

DATGANIAD O GYFRIFON 2010/11

MYNEGAI

	Tud(au)
Rhagair Esboniadol	3-9
Datganiad o Gyfrifoldebau ar gyfer y Datganiad o Gyfrifon	10
Datganiad o Bolisïau Cyfrifyddu	11-21
Y Datganiadau Cyfrifyddu:	
- Datganiad Cynhwysfawr Incwm a Gwariant	22-23
- Mantolen	24
- Datganiad o Symudiadau yn y Cronfeydd	25-26
- Datganiad Llif Arian	27
Nodiadau am y Cyfrifon	28-70
Adroddiad yr Archwilydd	71-72
Datganiad Llywodraethu Blynyddol	73-83
Geirfa	84

RHAGAIR ESBONIADOL

1. CYFLWYNIAD

Mae'r rhagair yn darparu esboniad cryno ynghylch y materion mwy arwyddocaol yr adroddwyd yn eu cylch yn y cyfrifon ac mae'n anelu at ychwanegu a chynorthwyo i ddehongli'r datganiadau cyfrifyddu a amlinellir ar dudalennau 22 i 27 ac mae'n cynnwys :-

- Y **Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr** sy'n dangos crynodeb enillion a'r colledion a brofwyd gan yr Awdurdod yn ystod y flwyddyn ariannol. Dylai'r enillion a'r colledion hyn wneud iawn am y symudiad mewn gwerth net
- **Mantolen** yn nodi sefyllfa ariannol yr Awdurdod ar 31ain Mawrth 2011.
- Crynodeb yw'r **Datganiad o Symudiadau mewn Cronfeydd** o'r newidiadau sydd wedi digwydd yn rhan isaf y fantolen dros y flwyddyn ariannol.
- Y **Datganiad Llif Arian** sy'n crynhoi'r mewnlifiadau ac all-lifau o arian sy'n deillio o drafodion i bwrpasau refeniw a chyfalaf.
  .

Cefnogir y cyfrifon gan Ddatganiad o Bolisïau Cyfrifyddu a nodiadau esboniadol.

2. SEFYDLIAD AWDURDOD PARC CENEDLAETHOL ERYRI

O dan ddarpariaeth Adran 63 o Ddeddf Amgylchedd 1995 a Gorchymyn Awdurdodau Parc Cenedlaethol (Cymru) 1995, sefydlodd yr Ysgrifennydd Gwladol Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri ar 23ain Tachwedd 1995.

Mae ganddo'r pwrpasau a ganlyn, fel y'i diffinnir hwy gan y Ddeddf :

- I warchod a gwella harddwch naturiol, bywyd gwyllt a threftadaeth ddiwylliannol; ac
- I hyrwyddo cyfleoedd i'r cyhoedd ddeall a mwynhau rhinweddau arbennig y Parc (Cenedlaethol).

Mae gan yr Awdurdod gyfrifoldeb dros gynllunio, gwarchod, rheolaeth cefn gwlad, mynediad a hamdden. Mae gwasanaethau megis ysgolion, priffyrdd, gwasanaethau cymdeithasol a dyletswyddau eraill Awdurdod Lleol yn cael eu cyflawni gan yr Awdurdod Unedol lleol.

Mae'r Ddeddf yn mynd ymlaen i nodi fod y Parc Cenedlaethol, wrth ddilyn pwrpasau Parc Cenedlaethol, yn ceisio meithrin lles economaidd a chymdeithasol y cymunedau lleol o fewn ei derfynau, ac y bydd i'r pwrpas hwnnw'n cydweithredu gydag Awdurdodau lleol a chyrff cyhoeddus y mae eu swyddogaethau'n cynnwys hybu datblygiad economaidd a chymdeithasol yn ardal y Parc.

Mae'r Awdurdod yn Awdurdod Cynllunio Lleol o dan Ddeddf Amgylchedd 1995 ar gyfer y cyfan o'r Parc Cenedlaethol, ac mae'n gyfrifol am gynhyrchu'r Cynllun Datblygu Lleol a gwneud penderfyniadau ar geisiadau cynllunio.

Mae'r Parc Cenedlaethol yn cynnwys 213,200 hectar o gefn gwlad amrywiol sy'n cynnwys mynyddoedd, rhostir, coetir ac arfordir. Mae tua 26,000 o bobl yn byw yn y Parc Cenedlaethol, sy'n derbyn amcangyfrif o 10.5 miliwn o ddiwrnodiau ymwelwyr bob blwyddyn.

Mae oddeutu 62% o drigolion y Parc Cenedlaethol yn siarad Cymraeg.

3. GWARIANT REFENIW A GYMERADWYWYD:

Bob blwyddyn mae'n ofynnol fod Awdurdod y Parc Cenedlaethol yn cyflwyno cais i Lywodraeth Cynulliad Cymru am arian refeniw. Wedi ei seilio ar y cais, ac mewn ymgynghoriad â Chyngor Cefn Gwlad Cymru, mae'r Cynulliad yn penderfynu ar Grant y Parc Cenedlaethol Grant (y Grant) am y flwyddyn sydd i ddod.

Wrth bennu maint y Grant, mae'r Cynulliad hefyd yn penderfynu, yn unol â Rheoliadau Awdurdodau Parc Cenedlaethol (Ardollau) (Cymru) 1995 fel y'u diwygiwyd, y lleiafswm y gellir ei godi gan Awdurdod y Parc Cenedlaethol am y flwyddyn ariannol trwy ardollau i'w oddef gan y Cynghorau cyfansoddol (awdurdodau bilio).

Mae'r Grant yn cynrychioli 75% o'r gwir gyfanswm gwariant refeniw (net) yr ystyrir yn briodol gan y Cynulliad i'r Parc Cenedlaethol, tra bod y 25% sy'n weddill yn cael ei godi trwy gyfrwng ardollau. Mae'r gymhariaeth o'r gwariant y cyllidwyd ar ei gyfer ac mae'r gwariant gwirioneddol am 2010/11 i'w gweld isod:

CYLLIDEB REFENIW 2010 / 11

	Cyllideb Ddiwygiedig 2010/2011	Gwir 2010/2011	Amrywiad
	(£)	(£)	(£)
Cadwraeth a'r Amgylchedd Naturiol	664,577	617,601	46,976
Cadwraeth a Threftadaeth Ddiwylliannol	469,955	468,482	1,473
Rheolaeth Hamddena & Traffig a Chludiant	412,187	340,549	71,638
Dealltwriaeth	1,733,048	1,715,081	17,967
Wardeniaid, Gweithwyr Stad a Gwirfoddolwyr	1,118,961	1,094,074	24,887
Rheolaeth Datblygu	453,054	459,320	- 6,266
Blaengynllunio a Chymunedau	563,150	634,502	- 71,352
Corfforaethol a Democrataidd	889,020	758,567	130,453
Enilliad (Cronfa Bensiwn) na ellir ei ddyrannu	- 2,307,000	- 2,307,000	-
GWIR GOSTAU GWASANAETHAU	**3,996,952**	**3,781,176**	**215,776**
Enillion & Cholledion ar waredion		- 1,205	
Llog a enillwyd		- 32,739	
Cost llog ar y rhwymedigaeth pensiwn a'r dychweliad a ddisgwylir ar Asedau Pensiwn		191,000	
Grantiau a chyfraniadau cyfalaf		- 128,457	
GWIR WARIANT GWEITHREDU		**3,809,775**	
Eitemau debyd a chredyd i Falans Cronfa'r Awdurdod		2,103,680	
		5,913,455	
ARIANNWYD O			
Grant y Parc Cenedlaethol		4,435,091	
Ardollau i Gynghorau Etholiadol		1,478,364	
		5,913,455	

4. GWARIANT REFENIW 2010 /11

Cyrhaeddir at wariant net yr Awdurdod ar ôl didynnu o'r gwariant gros ffioedd a chostau, grantiau gwasanaeth penodol a gwneud didyniadau amrywiol eraill fel y manylir arnynt yn y Cyfrif Incwm a Gwariant ar dudalennau 22-23.

Mae'r amrywiant ar y Cyfrif Refeniw 2010 / 11 o £215,776 yn cyfateb i'r amrywiant ar y llinellau cyllideb gwasanaeth cyn trosglwyddiadau i / o'r cronfeydd fel yr adroddwyd yn yr "Adroddiad Refeniw ac Alldro Cyfalaf 2010/11" i'r Awdurdod ar y 15fed o Fehefin 2011 (£222,859) ac a addaswyd ar gyfer y digwyddiad ôl-dyddiad y fantolen (£7,083).

5. CRONFA DATBLYGIAD CYNALIADWY

Daeth grant ychwanegol ar gael i'r Awdurdod gan Lywodraeth Cynulliad Cymru yn 2010/11 o du'r Gronfa Datblygiad Cynaliadwy (CDC / Social Development Fund - SDF). Pwrpas y grant yw caniatáu i'r Awdurdod gefnogi prosiectau partneriaeth sy'n datblygu ac arbrofi gyda ffyrdd o sicrhau ffyrdd o fyw mwy cynaliadwy yn Eryri. Yn ystod y flwyddyn roedd y gwariant o'r cynllun a gefnogir â grant, a hybir yn lleol fel Cronfa Arbrofol Eryri, yn £216,666 (2009/10: £220,262).

6. ASEDAU MATEROL A ENILLWYD A'R YMRWYMIADAU A GAFWYD

Yr asedau a gafaelwyd yn 2010/11 oedd 2 feic ar gyfer unigolion gyda nam corfforol, 3 cerbyd ar gyfer y gyfadran Rheolaeth Tir, ac eitemau sy'n berthnasol i'r rhaglen adnewyddu T.G. (Technoleg Gwybodaeth) blynyddol. Ni chaffaelwyd unrhyw rwymedigaethau sylweddol yn ystod blwyddyn ariannol 2010/ 11 ac eithrio'r ymrwymiadau cyfalaf hynny y cyfeiriwyd atynt yn nodyn 12 o'r Datganiadau Ariannol.

7. RHWYMEDIGAETH BENSIWN

Mae Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri yn aelod o Gronfa Bensiwn Gwynedd. Mae'r cyfrifon yn ymgorffori'n llawn beth yw gofynion y Safon Adrodd Ariannol Rhyngwladol 19 (IAS 19).

Mae'r polisi'n adlewyrchu'r ymrwymiad yn y tymor hir i gynyddu cyfraniadau i wneud iawn am unrhyw ddiffyg mewn asedau net priodoledig yn y gronfa bensiwn.

Mae'r rhwymedigaeth bensiwn net yn y Fantolen yn lleihau gwerth net yr Awdurdod o £2.15M ar 31 Mawrth 2011.

8. COST NEU GREDYD ANGHYFFREDIN YN Y CYFRIFON

Mae cyfrifon 2010/11 yn cynnwys cyfanswm o £264,903 am gostau sy'n gysylltiedig gyda 7 diswyddiad gwirfoddol. Rhennir y swm hwn rhwng £79,988 o gyfraniad pensiwn lwmp swm a £184,915 mewn taliadau diswyddo, ac maent wedi cael eu cynnwys yn y llinellau gwasanaeth perthnasol yn y Cyfrif Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.

Mae'r Actiwari wedi cyfrifo lleihad yng nghost gwasanaeth gorffennol o £2,307,000 yn sgil cynyddiadau pensiwn sy'n gysylltiedig gyda'r Mynegai Pris Defnyddwyr ac nid y Mynegai Pris Manwerthu. Mae hyn wedi ei gynnwys fel costau na ellir ei ddyrannu yn y Cyfrif Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.

9. NEWID MEWN POLISÏAU CYFRIFYDDU

Ar gyfer 2010/11, mae'r cyfrifon wedi cael eu paratoi yn unol â gofynion IFRS ac ailddatganwyd y ffigyrau cymharol. Mae'r cyfrifon yn cynnwys nodyn yn egluro arwyddocâd y symud o sail UK GAAP i sail IFRS a chrynodeb o'r newidiadau arwyddocaol.

10. NEWID MEWN SWYDDOGAETH STATUDOL

Dim newid, ond fe fydd y pwysau ariannol ar yr Awdurdod yn golygu y bydd yna ostyngiad yn y trosiant yn y dyfodol rhagweladwy.

11. GWARIANT CYFALAF 2010 / 11

Gwariant cyfalaf yw gwariant ar feddiannu ased sefydlog, neu wariant sy'n ychwanegu at werth ased sefydlog bresennol, nid ei gynnal yn unig.

Roedd gwariant cyfalaf yn ystod y flwyddyn £521,727. Dangosir manylion ynghylch y gwariant ym mhob maes gwasanaeth yn nodyn 37. Ariannwyd y gwariant gan grantiau a chyfraniadau oddi wrth gyrff eraill o £297,558 ac ariannu refeniw uniongyrchol o £224,169.

Mae'r £33,555 a adroddir yn awr fel "ased wrthi yn cael ei adeiladu" yn berthnasol i'r Cynllun Trydan Dwr (hydro) ym Mhlas Tan y Bwlch ynghyd a'r gwariant hyd yma ar y datblygu yn Cwm Idwal.

Mae'r holl wariant cyfalaf cynlluniedig (nodyn 12) yn cael ei ariannu o fewn y flwyddyn o refeniw a thrwy grantiau allanol.

12. GWARIANT CYFALAF

Cafodd holl wariant cyfalaf yr Awdurdod, ers iddo gael ei sefydlu ar yr 23ain o Dachwedd 1995,ei ariannu trwy gyfrwng grantiau cyfalaf a chyfraniadau gan y Llywodraeth, y Gymuned Ewropeaidd a grantiau o ffynonellau eraill, o dderbyniadau cyfalaf a gymhwyswyd ac o adnoddau refeniw'r Awdurdod.

Ar 31 Mawrth 2011 nid oedd gan yr Awdurdod ddyledion a oedd yn ddyledus, ac fel y cyfryw fe fydd yn parhau i gael ei ystyried ar gyfer dibenion Rheoli'r Trysorlys fel awdurdod diddyled.

13. DARPARIAETHAU SYLWEDDOL/CRONFEYDD WRTH GEFN A DILEADAU MATEROL

Cafodd y targed ar gyfer y Gronfa Refeniw Gyffredinol, oedd yn £400,000 ei adolygu a chafodd ei gadarnhau gan yr Awdurdod yn ei gyfarfod ar y 15fed o Ragfyr 2010 ac mae'n cynrychioli oddeutu 5% o'r gwariant refeniw gros a gyllidwyd ar gyfer 2010/11.

Yn ychwanegol at hynny yr oedd gan yr Awdurdod Gronfeydd Defnyddadwy penodol eraill a oedd yn dod i gyfanswm o £2,687,000 ac fe fanylir ynghylch rhain yn nodyn 22 o'r datganiadau ariannol.

14. AILWERTHUSO'R ASESDAU

Ail-brisiwyd tir ac eiddo'r Awdurdod yn ystod 2006/07 gan briswyr cymwys annibynnol. Ar wahân i'r asedau Cymunedol sydd yn awr yn cael eu prisio ar gost hanesyddol, mae'r prisio newydd ac oes adolygedig defnyddiol a amcangyfrifir yr asedau wedi eu cymhwyso i werth asedau sydd wedi eu cofnodi yn natganiadau cyfrifon yr Awdurdod. Cafodd adeilad Hafod Eryri ei brisio gan y Gwasanaeth Prisio Dosbarth yn 2009/10. Cafodd yr adeiladau wedi eu hailwneud ym Mhen y Pass ynghyd a'r maes parcio eu hail werthuso gan y Gwasanaeth Prisio Dosbarth yn ystod 2010/11.

15. DIGWYDDIADAU PERTHNASOL O SYLWEDD AR ÔL Y DYDDIAD ADRODD

Nid oes digwyddiadau perthnasol o sylwedd ar ôl diwedd y flwyddyn ariannol ond cyn y dyddiad pan awdurdodwyd y cyfrifon i'w cyhoeddi.

16. EFFAITH YR HINSAWDD ECONOMAIDD GYFREDOL

Mae'r cylch ariannu 3 blynedd sydd i ddod wedi golygu fod gostyngiad o 2.68% yn yr arian cyllido ar gyfer 2011/12 ynghyd a newidiadau i grantiau penodol fel CAE a Grant Cyflawni Cynllunio Cymru. Rhagwelir y bydd arian cyllido Grant y Parc Cenedlaethol ar gyfer y 2 flynedd ddilynol yn cael ei ddyrchafu 0%. Mae'r Awdurdod eisoes wedi cymhwyso arbedion mewn costau gwasanaeth ac mae'n y broses o ail-werthuso a gweithredu mesurau pellach i gydbwyso'r gyllideb dros y tair blynedd sydd i ddod.

Mae'r Awdurdod wedi gallu cronni cronfeydd sylweddol dros y blynyddoedd diweddar i gwrdd â'r anghenion posibl fel a adnabyddir yng nghofrestr risg yr Awdurdod.

Ni adnabuwyd newid sylweddol yng ngwerthoedd asedau'r Awdurdod (a rhwymedigaethau) ar gyfer y flwyddyn ariannol hon.

GWYBODAETH BELLACH

Mae gwybodaeth bellach ynghylch y Datganiad Cyfrifon hwn ar gael oddi wrth:

Emyr Roberts
Pennaeth Cyllid
Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri
Swyddfeydd y Parc Cenedlaethol
Penrhyndeudraeth
Gwynedd
LL48 6LF
Ffôn: 01766 772 225
Ebost: emyr.roberts@eryri-npa.gov.uk

Y Datganiad o Gyfrifoldebau am y Datganiad Cyfrifon

Cyfrifoldebau'r Awdurdod

Mae'n ofynnol ar i'r Awdurdod:-

- Wneud trefniadau ar gyfer gweinyddu priodol ei faterion ariannol ac i sicrhau fod un o'i swyddogion gyda chyfrifoldeb am weinyddu'r materion hynny. Yn achos Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri, y swyddog hwnnw yw'r Prif Swyddog Cyllid;
- Rheoli ei faterion er mwyn sicrhau defnydd economaidd, effeithlon, ac effeithiol o'i adnoddau a diogelu ei asedau;
- Cymeradwyo ei ddatganiad cyfrifon.

Cafodd y cyfrifon hyn eu cymeradwyo gan yr Awdurdod ar yr 28ain o Fedi 2011

Llofnod : Cyng ..... Caerwyn Roberts .....
Cadeirydd

Cyfrifoldebau'r Prif Swyddog Cyllid

Mae'r Prif Swyddog Cyllid yn gyfrifol am baratoi Datganiad Cyfrifon yr Awdurdod yn unol ag arferion priodol a amlinellir yn y Cod Ymarfer CIPFA/LASAAC ar Gyfrifyddu Llywodraeth Leol yn y DU ('y Cod Ymarfer').

Wrth baratoi'r datganiadau cyfrifon, mae'r Prif Swyddog Cyllid wedi:-

- Dethol polisïau cyfrifyddu addas ac yna eu cymhwyso'n gyson;
- Gwneud penderfyniadau ac amcangyfrifon a oedd yn rhesymol a doeth;
- Wedi cydymffurfio â'r Datganiad Ymarfer a Argymhellir.

Mae'r Prif Swyddog Cyllid hefyd wedi:-

- Cadw cofnodion cyfrifyddu cywir a oedd yn gyfredol;
- Wedi cymryd camau rhesymol i rwystro a darganfod twyll ac anghysonderau eraill.

Tystysgrif y Prif Swyddog Cyllid

Mae'r Datganiadau Cyfrifon wedi cael eu paratoi'n unol â Chyfrifon Llywodraeth Leol a Rheoliadau Archwilio ac yn cyflwyno'n deg a gwir sefyllfa ariannol yr Awdurdod ar y dyddiad cyfrifyddu a'i incwm a gwariant i'r flwyddyn yn gorffen 31ain Mawrth 2011.

Llofnod : ..... 15fed Medi 2011
Prif Swyddog Cyllid

DATGANIAD O BOLISÏAU CYFRIFYDDU

1. Egwyddorion Cyffredinol

Mae'r cyfrifon wedi eu paratoi'n unol â Chod Ymarfer CIPFA/LASAAC ar Gyfrifyddu Llywodraeth Leol yn y DU ('y Cod Ymarfer').

Mae'r Cod Ymarfer yn ei gwneud yn ofynnol i bolisïau cyfrifyddu gael eu cymhwyso'n gyson. Y gofyniad pwysicaf yw bod y Datganiadau Cyfrifon yn 'cyflwyno'n deg a gwir' berfformiad ariannol a sefyllfa'r Awdurdod.

2. Cysyniadau Cyfrifyddu

Mae'r cyfrifon wedi eu paratoi'n unol â'r egwyddorion a'r cysyniadau cyfrifyddu hanfodol (a threiddiol) a ganlyn :

- Perthnasedd
- Dibynadwyedd
- Cymaroldeb
- Dealladwy
- Materoldeb
- Croniadau
- Busnes Gweithredol
- Uchafiaeth gofynion deddfwriaethol

Mae'r egwyddorion a chysyniadau hyn wedi eu defnyddio wrth ddethol a chymhwyso polisïau cyfrifyddu a thechnegau amcangyfrif ac wrth weithredu barn broffesiynol.

3. Y sail i Gynnwys Dyledwyr a Chredydwyr

Mae cyfrifon refeniw a chyfalaf yr Awdurdod yn cael eu cynnal ar sail croniadau. Mae'r holl symiau sy'n ddyledus i'r Awdurdod yn cael eu gosod yn y cyfrifon ar yr amser maent yn ddyledus.

Y Dyledwyr sy'n ymddangos yn y Fantolen yw balansau'r symiau sy'n ddyledus ar 31ain Mawrth 2011.

Y Credydwyr yw'r symiau sydd wedi eu gosod yn erbyn y cyfrifon am nwyddau a gwasanaethau a ddefnyddiwyd neu a gafwyd, ond nad oedd yr anfonebau wedi eu talu ar 31ain Mawrth 2011.

4. Gweithrediadau a Gaffaelwyd neu a Derfynwyd

Nid oes unrhyw eitemau o'r fath yn berthnasol i gyfrifon 2010/11

5. Arian Parod a'r Eitemau sydd Gyfystyr ag Arian Parod

Mae hyn yn cynnwys cyfrifon imprest a chronfeydd parod yr Awdurdod ac arian parod a ddelir "ar alwad" neu wedi ei ddydodi dros y tymor byr gyda banciau lle mae'r arian yn ad-daladwy heb gosb pan geir rhybudd nid hwy na 24 awr.

6. Eitemau Eithriadol

Pan fo eitemau o incwm a gwariant yn berthnasol, mae eu natur a'r swm yn cael eu datgelu ar wahân, un ai ar sail y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr neu mewn nodiadau sy'n cyd fynd a'r cyfrifon, yn dibynnu ar pa mor arwyddocaol yw'r eitemau o ran dealltwriaeth o berfformiad ariannol yr Awdurdod.

7. Addasiadau cyn cyfnod, newidiadau mewn polisïau cyfrifyddu ac amcangyfrifon a chamgymeriadau

Rhoddir manylion ar y newidiadau yn sgil yr IFRS yn nodyn 1 i'r Cyfrifon.

8. Codi tal ar refeniw am asedau anghyfredol

Codir tal ar wasanaethau, gwasanaethau cefnogol a chyfrifon masnachu gyda'r symiau a ganlyn er mwyn cofnodi'r gost o ddal asedau sefydlog yn ystod y flwyddyn:

- Dibrisiant sy'n digwydd i'r asedau a ddefnyddir gan y gwasanaeth perthnasol,
- Ailwerthuso a cholledion nam ar asedau a ddefnyddir gan y gwasanaeth lle nad oes enillion cronnus yn y Gronfa Ailwerthuso lle gellir dileu'r colledion yn eu herbyn,
- Amorteiddio asedau sefydlog anghyffyrddadwy sy'n berthnasol i'r gwasanaeth.

Ni ellir codi tal am y symiau hyn yn erbyn Cronfa Gyffredinol yr Awdurdod ac felly meant fel y cyfryw yn cael eu gwyrdroi trwy gyfnewidiad addasu gyda'r Cyfrif Addasu Cyfalaf fel y dangosir yn y Datganiad Symudiad yn y Cronfeydd.

9. Gweithrediadau na Pharheir

Nid oes eitemau o'r fath yn berthnasol i gyfrifon 2010/11

10. Buddion gweithwyr

Buddiannau Sy'n Daladwy yn Ystod Cyflogaeth :

Buddiannau gweithwyr tymor byr yw'r rheiny sydd i fod i gael eu setlo o fewn 12 mis i ddiwedd y flwyddyn. Maent yn cynnwys buddiannau fel cyflogau wythnosol a misol, tâl gwyliau blynyddol a thâl cyfnod salwch, bonysau a buddiannau nad ydynt yn rhai ariannol (ee ceir) i weithwyr presennol ac maen tyn cael eu cydnabod fel traul gwasanaethau yn y flwyddyn y mae'r gweithwyr yn rhoi gwasanaeth i'r Awdurdod.

Buddiannau terfynu :

Buddiannau terfynu yw'r symiau sy'n daladwy o ganlyniad i benderfyniad gan yr Awdurdod i ddod â chyflogaeth swyddog i ben cyn y dyddiad ymddeol cyffredin neu benderfyniad swyddog i dderbyn diswyddo gwirfoddol a chodir y rhain ar sail groniadau i'r llinell Costau Heb eu Dosbarthu Costau yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr pan fo'r Awdurdod yn amlwg wedi ymrwymo i derfynu cyflogaeth swyddog neu grŵp o swyddogion neu i wneud cynnig i annog diswyddo gwirfoddol.

11. Digwyddiadau ar ôl Dyddiad y Fantolen

Digwyddiadau ar ôl Dyddiad y Fantolen yw'r digwyddiadau hynny, yn rhai ffafriol ac anffafriol, sy'n digwydd rhwng diwedd y cyfnod adrodd a'r dyddiad pan fo'r Datganiad Cyfrifon wedi ei awdurdodi i'w gyhoeddi. Gellir dynodi dau fath o ddigwyddiadau:

- y rheiny sy'n rhoi tystiolaeth o'r amodau oedd yn bodoli ar ddiwedd y cyfnod adrodd – mae'r Datganiad Cyfrifon yn cael ei addasu i adlewyrchu'r fath ddigwyddiadau
- y rheiny sy'n arwydd o amodau a gododd ar ôl y cyfnod adrodd – nid yw'r Datganiad Cyfrifon yn cael ei addasu i adlewyrchu'r fath ddigwyddiadau, ond ble y byddai categori o ddigwyddiadau yn cael effaith berthnasol, gwneir datgeliad yn y nodiadau ar natur y digwyddiadau a'u heffaith ariannol ddisgwyliedig.

Nid adlewyrchir digwyddiadau sy'n cymryd lle ar ôl dyddiad awdurdodi i gyhoeddi yn y Datganiad Cyfrifon.

12. Offerynnau Ariannol

Atebolrwydd Ariannol

Mae'r Awdurdod yn Awdurdod diddyled yn yr ystyr nad oes ganddo unrhyw fenthyciadau.

Asedau Ariannol

Dosberthir asedau ariannol i ddau fath:

- benthyciadau a derbyniadau posib – asedau sydd â thaliadau sefydlog neu benodadwy ond nad ydynt yn cael eu dyfynnu yn y farchnad weithredol.

Y fath offerynnau sy'n berthnasol i'r Awdurdod yw benthyciadau car a wneir i weithwyr (fodd bynnag tybir nad yw'r symiau'n ddigon sylweddol i'w cynnwys) ac un brydles ariannol yn ymwneud â Bar Byrbryd Ogwen.

- asedau sydd ar gael i'w gwerthu – asedau sydd â phris marchnad dyfynedig ac/neu sydd heb daliadau sefydlog neu benodadwy. Nid oes gan yr Awdurdod y fath asedau.

13. Arian tramor

Mae incwm a gwariant sy'n deillio o unrhyw drafodion mewn arian cyfredol o dramor yn cael ei gyfieithu i £ sterling.

14. Grantiau Llywodraeth a Chyfraniadau eraill

P'un a ydynt yn cael eu talu i'r cyfrif, trwy randaliadau neu fel ôl-ddyledion, cydnabyddir grantiau llywodraeth a chyfraniadau a rhoddion trydydd parti fel rhai sy'n ddyledus i'r Awdurdod pan fo sicrwydd rhesymol:

- y bydd yr Awdurdod yn cydymffurfio â'r amodau sydd ynghlwm â'r taliadau, ac
- y derbynnir y grantiau neu gyfraniadau.

Nid yw'r symiau a nodwyd fel rhai sy'n ddyledus i'r Awdurdod yn cael eu rhoi mewn credyd yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr hyd oni fydd yr amodau sydd ynghlwm wrth y grant neu'r cyfraniad wedi eu bodloni. Mae'r amodau'n nodi bod rhaid i'r buddiannau economaidd yn y dyfodol neu i'r gwasanaeth posib sydd wedi'i ymgorffori yn yr ased a brynwyd gyda'r arian grant neu gyda'r cyfraniadau gael eu defnyddio gan y derbynnydd fel a nodwyd, neu bydd raid dychwelyd i'r trosglwyddydd y buddiannau economaidd yn y dyfodol neu'r gwasanaeth posib.

Mae'r arian a roddwyd fel grantiau a chyfraniadau lle na chafodd yr amodau eu bodloni yn cael eu cludo ymlaen yn y Fantolen fel credydwyr. Pan fo'r amodau'n cael eu bodloni mae'r grant neu'r cyfraniad yn cael ei roddi mewn credyd yn y llinell gwasanaeth priodol (grantiau refeniw a chyfraniadau a briodolwyd) neu Dreth ac Incwm Grant Amhenodol (grantiau refeniw heb eu hamgáu a'r cyfan o'r grantiau cyfalaf) yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.

Pan fo'r grantiau cyfalaf yn cael eu rhoddi mewn credyd yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr, maent yn cael eu gwyrdroi allan o Falans y Gronfa Gyffredinol yn y Datganiad Symudiadau mewn Cronfeydd wrth gefn.

Pan fo grant heb ei ddefnyddio eto i gyllido gwariant cyfalaf, mae'n cael ei bostio i'r Grantiau Cyfalaf Wrth Gefn – y rhai na chafodd eu defnyddio. Pan fo wedi'i ddefnyddio mae'n cael ei bostio i'r Cyfrif Addasiad Cyfalaf. Mae'r symiau yn y Grantiau Cyfalaf Wrth Gefn na chawsant eu defnyddio yn cael eu trosglwyddo i'r Cyfrif Addasiad Cyfalaf unwaith y cânt eu defnyddio i gyllido gwariant cyfalaf.

15. <u>Asedau anghyffyrddadwy</u>

Cyfrifir am asedau anghyffyrddadwy a brynir ar ffurf trwyddedau meddalwedd fel rhan o'r rhaglen amnewid Technoleg Gwybodaeth, ac maent yn cael eu lleihau i refeniw yn unol â'r dibrisiant costau.

16. <u>Buddiannau mewn Cwmnïau ac Endidau Eraill</u>

Nid oes gan yr Awdurdod unrhyw fuddiannau y mae gofyn eu hystyried dan y polisi hwn.

17. <u>Rhestrau Stoc a Chontractau Tymor Hir</u>

Mae stociau'n cael eu tynnu i'r cyfrif yn ôl cost y prisiau yn achos stociau'r bar, nwyddau i'w hailwerthu a darpariaethau cyffredinol ym Mhlas Tan y Bwlch, y Ganolfan Astudio ac yn achos nwyddau i'w hailwerthu yng Nghanolfannau Gwybodaeth yr Awdurdod. Mae hyn yn gyson â'r polisi a fabwysiadwyd ym mlynyddoedd y gorffennol. Dan yr ymarfer a argymhellir rhaid dangos y stociau yn ôl y pris isaf o ddau, sef y gost wirioneddol neu'r gwerth dichonadwy net, ond nid yw'r gwahaniaeth yn berthnasol yn yr achos hwn.

18. Eiddo Buddsoddol

Nid oes gan yr Awdurdod unrhyw eiddo a glustnodwyd fel eiddo Buddsoddol.

19. Eiddo a Reolir ar y Cyd ac Asedau a Reolir ar y Cyd

Ar ddiwedd Cynllun Llwybrau Ucheldir Eryri mae'r asedau a brynwyd dan y cynllun yn cael eu cofnodi yng nghyfrifon Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri ond mae cyfran o'r asedau hyn yn cael eu defnyddio gan yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol. Mae hyn yn lle'r amod yn y grant Ewropeaidd a gafwyd lle dywedir bod raid i'r partneriaid barhau i ddefnyddio'r asedau a brynwyd i bwrpas gwaith sydd a wnelo â gwaith y cynllun. Cytunwyd ar y trefniant mewn egwyddor a bydd yn cael ei ffurfioli mewn cytundeb ôl-gynllun rhwng Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri a'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol.

20. Prydlesau (Cyllid)

Mae gan yr Awdurdod, fel prydleswr, un trefniant prydlesu ariannol yng nghyswllt bar Byrbryd Ogwen. Cyfrifir am yr incwm prydles ar sail llinell syth.

Nid oes gan yr Awdurdod fel daliwr prydles unrhyw drefniadau brydles cyllid.

21. Prydlesau (Gweithredol)

Mae'r Awdurdod yn rheoli prydlesau gweithredol i:

- Gerbydau, yn cynnwys y rhai i staff o dan y Cynllun Car Prydles Staff,
- Llungopïwyr a pheiriannau diodydd a byrbrydau.
- Tir ac adeiladau

Codir am daliadau prydles yn llawn yn ôl y dyddiad y maent yn daladwy arno ar sail llinell syth, yn sicrhau tâl blynyddol cyfartal i gyfrifon refeniw gwasanaeth drwy gydol oes y brydles.

Mae'r cyfraniadau oddi wrth staff sy'n cael budd o'r cynllun prydles car yn cael eu credydu i'r cyfrif refeniw yn ystod cyfnod eu derbyn..

Mae'r Awdurdod yn rhentu sawl eiddo i gefnogi ei wasanaethau, a hefyd mae'n derbyn incwm rhent o sawl eiddo a berchenogir. Mae'r eiddo a berchenogir yn cael ei ddal fel asedau sefydlog yn y fantolen. Cyfrifir am yr incwm prydles ar sail llinell syth.

22. Gorbenion a Gwasanaethau Cefnogol

Mae costau gorbenion a gwasanaethau cefnogol yn cael eu codi ar y rheiny sy'n cael y buddiant o'r cyflenwad neu wasanaeth yn unol ag egwyddorion costio y CIPFA *Best Value Accounting Code of Practice 2010/11* (BVACOP). Defnyddir yr egwyddor costio amsugno llwyr - cost lawn y gorbenion a gwasanaethau cefnogol yn cael eu rhannu rhwng defnyddwyr yn ôl cyfran y buddiannau a gafwyd, ac eithrio:

- Craidd Corfforaethol a Democrataidd – costau'n gysylltiedig â statws yr Awdurdod fel sefydliad aml swyddogaeth, democrataidd.

- Costau heb eu Dosbarthu - costau cyn gwasanaethau'n gysylltiedig â'r Gronfa Bensiwn.

Diffinnir y ddau gategori hyn yn BVACOP a chyfrifir amdanynt o dan benawdau ar wahân yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr, fel rhan o Wariant Net ar Wasanaethau sy'n Parhau.

23. <u>Eiddo, Offer a Chyfarpar</u>

Dosberthir asedau sydd â sylwedd ffisegol ac sy'n cael eu dal i'w defnyddio i gynhyrchu neu gyflenwi nwyddau neu wasanaethau, i'w rhentu i eraill, neu i bwrpasau gweinyddol ac y disgwylir iddynt gael eu defnyddio yn ystod mwy nag un flwyddyn ariannol fel Eiddo, Offer a Chyfarpar.

Cydnabyddiaeth: Mae gwariant ar gaffael, creu neu wella Eiddo, Offer a Chyfarpar yn cael ei gyfalafu ar sail groniadau, cyn belled â'i fod yn bosib y bydd y buddiannau economaidd i'r dyfodol neu botensial gwasanaeth sy'n gysylltiedig â nhw'n llifo i'r Awdurdod ac y gellir mesur cost yr eitem yn ddibynadwy. Mae gwariant sy'n cynnal ond nad yw'n ychwanegu at botensial ased i gyflenwi buddiannau economaidd i'r dyfodol neu botensial gwasanaeth (hy trwsio a chynnal a chadw) yn cael ei godi fel traul fel ag y mae'n digwydd.

Mesur: Caiff asedau eu mesur yn y lle cyntaf ar gost, yn cynnwys:

- y pris prynu
- unrhyw gostau a briodolir i ddod ag ased i'r lleoliad a'r cyflwr sy'n angenrheidiol iddo fedru cael ei weithredu yn y dull a fwriadwyd gan reolwyr
- [amcangyfrif cychwynnol o gostau datgymalu a symud yr eitem ac adfer y safle y lleolir ef arno.]

Nid yw'r Awdurdod yn cyfalafu costau benthyca a geir tra bod asedau'n cael eu hadeiladu.

Tybir bod cost asedau a gafaelir heblaw drwy bryniant i fod eu gwerth teg, oni bai nad oes sylwedd masnachol i'r caffaeliad (hy ni fydd yn arwain at amrywiad yn llif arian yr Awdurdod). Yn yr achos olaf, pan y caffaelir ased drwy gyfnewid, cost y caffaeliad yw swm cario'r ased a roddir i fyny gan yr Awdurdod.

I ddechrau mesurir asedau a gyfrannir ar eu gwerth teg. Y gwahaniaeth rhwng gwerth teg ac unrhyw ystyriaeth a delir i'r llinell Treth ac Incwm Grant Amhenodol y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr, oni bai bod y rhodd wedi ei roi gydag amod. Hyd nes bo'r amodau'n cael eu boddhau, bydd yr enilliad yn cael ei ddal yn y Cyfrif Asedau a Roddwyd.

Pan fo enillion yn cael eu credydu i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr, maent yn cael eu gwyrdroi allan o Falans y Gronfa Gyffredinol i'r Cyfrif Addasiad Cyfalaf yn y Datganiad Symudiadau mewn Cronfeydd Wrth Gefn.

Yna mae'r asedau'n cael eu cario i'r Fantolen gan ddefnyddio'r seiliau mesur canlynol:

- isadeiledd, asedau cymunedol ac asedau sy'n cael eu hadeiladu – cost dibrisiant hanesyddol pan y gwyddys hwnnw ac fel arall ar swm enwol o £1
- pob ased arall – gwerth teg, a bennir fel y swm a fyddai'n cael ei dalu am yr ased yn ei ddefnydd presennol (gwerth defnydd presennol – EUV).

Pan nad oes tystiolaeth seiliedig ar y farchnad o werth teg oherwydd natur arbenigol ased, defnyddir cost amnewidiol dibrisiedig (DRC) fel amcangyfrif o werth teg.

Pan fo gan asedau nad ydynt yn eiddo oes ddefnyddiol fer neu werth isel (neu'r ddau), defnyddir sail cost hanesyddol dibrisiedig fel procsi ar gyfer gwerth teg. Heblaw am gyfarpar systemau gwybodaeth, mae lefel de minimis o £10,000 wedi ei ddefnyddio ar gyfer cydnabyddiaeth asedau nad ydynt yn gyfredol.

Mae'r asedau a gynhwysir yn y Fantolen ar werth teg yn cael eu hailbrisio yn ddigon aml i sicrhau nad yw eu swm cario'n sylweddol wahanol o'u gwerth teg ar ddiwedd y flwyddyn, ar y lleiaf bob pum mlynedd. Mae cynnydd mewn ailbrisio'n cydweddu â chredydau i'r Gronfa Ailbrisiant Wrth Gefn i gydnabod enillion heb eu gwireddu. [Yn eithriadol, gellir credydu enillion i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr pan fônt yn codi o wyrdroad colled a godwyd yn flaenorol i wasanaeth.]

Pan ddynodir lleihad mewn gwerth, cyfrifir amdanynt trwy:

- pan fo balans o enillion ailbrisiant i'r ased yn y Gronfa Ailbrisiant Wrth Gefn, ysgrifennir swm cario'r ased i lawr yn erbyn y balans hwnnw (i fyny at y swm o enillion cronnus)
- pan nad oes balans yn y Gronfa Ailbrisiant Wrth Gefn neu falans annigonol, ysgrifennir swm cario'r ased i lawr yn erbyn llinell(au) y gwasanaeth perthnasol yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.

Mae'r Gronfa Ailbrisiant Wrth Gefn yn cynnwys enillion ailbrisiant a gydnabyddir ers 1 Ebrill 2007 yn unig, dyddiad ei gweithredu'n ffurfiol. Mae'r enillion a gafwyd cyn y dyddiad hwnnw wedi eu cyfnerthu yn y Cyfrif Addasiad Cyfalaf.

Amhariad: Mae gwerth asedau'n cael eu hadolygu ar ddiwedd pob blwyddyn am arwydd o amhariad ar werth. Pan fo arwyddion, ac amcangyfrifir bod gwahaniaethau posib yn berthnasol, yna amcangyfrifir swm adferadwy'r ased a, ble bo hwn yn llai na swm cario'r ased, cydnabyddir colled amhariad ar gyfer y diffyg.

Pan ddynodir colledion amhariad, cyfrifir amdanynt trwy:

- pan fo balans o enillion ailbrisiant i'r ased yn y Gronfa Ailbrisiant Wrth Gefn, ysgrifennir swm cario'r ased i lawr yn erbyn y balans hwnnw (i fyny at y swm o enillion cronnus)
- pan nad oes balans yn y Gronfa Ailbrisiant Wrth Gefn neu falans annigonol, ysgrifennir swm cario'r ased i lawr yn erbyn llinell(au) y gwasanaeth perthnasol yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.

Pan fo colled amhariad yn cael ei gwyrdroi'n dilyn hyn, credydir y gwyrdroad i'r llinell(au) gwasanaeth perthnasol yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr, i fyny at swm y golled wreiddiol, wedi ei addasu ar gyfer Dibrisiant y byddid wedi ei godi pe na fyddai'r golled wedi ei chydnabod.

Dibrisiant: darperir ar gyfer dibrisiant yr holl asedau Eiddo, Offer a Chyfarpar trwy ddyraniad systematig o'u symiau dibrisio dros eu hoes ddefnyddiol. Gwneir eithriad ar gyfer asedau heb oes ddefnyddiol benodadwy gyfyngedig (hy tir rhydd-ddaliad a rhai asedau cymunedol) ac asedau nad ydynt eto ar gael i'w defnyddio (hy asedau sy'n cael eu hadeiladu).
Cyfrifir dibrisiant ar y seiliau canlynol:

- adeiladau – dyraniad llinell syth dros oes ddefnyddiol yr eiddo fel yr amcangyfrifir gan y prisiwr
- cerbydau, offer, dodrefn a chyfarpar – canran o werth bob dosbarth o asedau yn y Fantolen, fel y cynghorir gan swyddog â chymwysterau addas

Pan fo gan eitem o ased Eiddo, Offer a Chyfarpar gydrannau mawr y mae eu cost yn sylweddol mewn cysylltiad â chost gyfan yr eitem, dibrisir y cydrannau ar wahân. Mae enillion ailbrisiant hefyd yn cael eu dibrisio, gyda swm sy'n cyfateb i'r gwahaniaeth rhwng gwerth presennol dibrisiant a godir ar asedau a'r dibrisiant a fyddai wedi ei godi ar eu cost hanesyddol yn cael ei drosglwyddo bob blwyddyn o'r Gronfa Ailbrisiant Wrth Gefn i'r Cyfrif Addasiad Cyfalaf.

Gwarediadau ac Asedau Heb fod yn Gyfredol yn Cael eu Dal ar Gyfer Gwerthu
Pan y daw'n bosib y bydd swm cario ased yn cael ei adennill yn bennaf drwy werthiant yn hytrach na pharhau i'w ddefnyddio, caiff ei ailddosbarthu fel Ased sy'n Cael ei Ddal i'w Werthu. Mae'r ased y cael ei ailbrisio yn union cyn ei ailddosbarthu ac yna ei gario ar yr isaf o'r swm hwn a gwerth teg llai costau gwerthu. Pan fo gostyngiad dilynol i werth teg llai costau gwerthu, mae'r golled yn cael ei phostio i'r llinell Gwariant Gweithredol Arall yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr. Dim ond hyd at swm unrhyw golledion a gydnabuwyd yn flaenorol yn y Gwarged neu Ddiffyg ar Ddarpariaeth Gwasanaethau y cydnabyddir enillion mewn gwerth teg. Ni chodir dibrisiant ar Asedau sy'n Cael eu Dal i'w Gwerthu.

Os nad yw asedau bellach yn cwrdd â'r meini prawf i'w dosbarthu fel Asedau sy'n Cael eu Dal i'w Gwerthu, yna cânt eu hailddosbarthu'n ôl i asedau nad ydynt yn rhai cyfredol a'u prisio ar yr isaf o'u swm cario cyn iddynt gael eu dosbarthu fel yn cael eu dal i'w gwerthu; addasu ar gyfer dibrisiant, amorteiddiad neu ailbrisiadau a fyddai wedi cael eu cydnabod petaent ddim wedi cael eu dosbarthu fel rhai sy'n Cael Eu Dal i'w Gwerthu, a'u swm adferadwy ar ddyddiad y penderfyniad i beidio gwerthu.

Nid yw asedau sydd wedi eu gadael neu eu sgrapio yn cael eu hailddosbarthu fel Asedau sy'n Cael eu Dal i'w Gwerthu.

Pan y ceir gwared ag ased neu pan gaiff ei ddatgomisiynu, dilëir swm cario'r ased yn y Fantolen (p'un a yw'n Eiddo, Offer a Chyfarpar neu Asedau sy'n Cael eu Dal i'w Gwerthu) i linell Gwariant Gweithredol Arall yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr fel rhan o'r enilliad neu golled ar waredu. Mae derbyniadau o warediadau (os oes rhai) yn cael eu credydu i'r un llinell yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr hefyd fel rhan o'r enilliad neu golled ar waredu (hy wedi ei netio i ffwrdd yn erbyn gwerth cario'r ased ar adeg ei waredu). Mae unrhyw enillion ailbrisiant a gronnwyd i'r ased yn y Gronfa Ailbrisiant Wrth Gefn yn cael eu trosglwyddo i'r Cyfrif Addasiad Cyfalaf.

Mae symiau uwch na £10,000 a dderbynnir ar gyfer eitem a waredwyd yn cael eu categoreiddio fel derbyniadau cyfalaf. Mae'n ofynnol ar i'r derbyniadau cyfalaf gael eu credydu i'r Gronfa Derbyniadau Cyfalaf Wrth Gefn, ac yna dim ond ar gyfer buddsoddiad cyfalaf newydd y cânt eu defnyddio [neu eu gosod o'r neilltu i leihau angen gwaelodol yr Awdurdod i fenthyca (y gofyniad cyllido cyfalaf)]. Mae derbyniadau'n cael eu meddiannu i'r Gronfa Wrth Gefn o Falans y Gronfa Gyffredinol yn y Datganiad Symudiadau mewn Cronfeydd wrth Gefn.

Nid yw gwerth a ddilëir o warediadau'n cael ei godi ar y Gronfa Gyffredinol. Mae'r symiau hyn yn cael eu meddiannu i'r Cyfrif Addasiad Cyfalaf o Falans y Gronfa Gyffredinol yn y Datganiad Symudiadau mewn Cronfeydd wrth Gefn.

24. <u>Darpariaethau, Rhwymedigaethau Wrth Gefn ac Asedau Wrth Gefn</u>

Gwneir darpariaethau pan fo digwyddiad wedi cymryd lle sy'n rhoi rhwymedigaeth gyfreithiol neu adeiladol i'r Awdurdod sydd yn ôl pob tebyg angen setliad trwy drosglwyddo buddiannau economaidd neu botensial gwasanaeth, ac y gellir gwneud amcangyfrif dibynadwy o faint y rhwymedigaeth. Er enghraifft, efallai bod yr Awdurdod yn rhan o achos llys a allai arwain yn y pen draw at wneud setliad neu dalu iawndal.

<u>Darpariaethau</u>

Codir darpariaethau fel traul ar y llinell gwasanaeth briodol yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr yn y flwyddyn y daw'r awdurdod yn ymwybodol o'r rhwymedigaeth, a chânt eu mesur yn ôl yr amcangyfrif gorau ar ddyddiad y Fantolen o'r gwariant sydd ei angen i setlo'r rhwymedigaeth, gan gymryd i ystyriaeth y risgiau ac ansicrwydd perthnasol.

<u>Rhwymedigaethau wrth gefn</u>

Mae rhwymedigaeth wrth gefn yn codi pan fo digwyddiad wedi cymryd lle sy'n rhoi rhwymedigaeth posib i'r awdurdod, y bydd ei fodolaeth ond yn cael ei gadarnhau neu fel arall o ddigwyddiadau ansicr i'r dyfodol nad ydynt yn gyfan gwbl o fewn rheolaeth yr awdurdod. Mae rhwymedigaethau wrth gefn hefyd yn codi mewn amgylchiadau ble byddai darpariaeth yn cael ei gwneud fel arall ond naill ai nad yw'n debygol a bydd angen all-lif o adnoddau neu na ellir mesur maint y rhwymedigaeth yn ddibynadwy.

Ni chydnabyddir rhwymedigaethau wrth gefn yn y Fantolen, ond cânt eu datgelu mewn nodyn i'r cyfrifon.

Asedau wrth gefn

Mae ased wrth gefn yn codi pan fo digwyddiad wedi cymryd lle sy'n rhoi ased bosib i'r awdurdod, y bydd ei fodolaeth ond yn cael ei gadarnhau neu fel arall o ddigwyddiadau ansicr i'r dyfodol nad ydynt yn gyfan gwbl o fewn rheolaeth yr awdurdod.

Ni chydnabyddir asedau wrth gefn yn y Fantolen ond cânt eu datgelu mewn nodyn i'r cyfrifon ble mae'n debygol y bydd mewnlif o fuddiannau economaidd neu botensial gwasanaeth.

25. Cronfeydd wrth Gefn

Mae'r Awdurdod yn gosod o'r neilltu symiau penodol fel cronfeydd wrth gefn i ddibenion polisi i'r dyfodol neu i ymdrin â materion wrth gefn. Crëir cronfeydd wrth gefn trwy feddiannu symiau o Falans y Gronfa Gyffredinol yn y Datganiad Symudiadau mewn Cronfeydd wrth Gefn. Pan y ceir traul sydd i'w gyllido o gronfa wrth gefn, caiff ei godi ar y gwasanaeth priodol yn y flwyddyn honno i'w sgorio yn erbyn y Gwarged neu Ddiffyg ar Ddarpariaeth Gwasanaethau yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr. Yna meddiannir y gronfa wrth gefn yn ôl i Falans y Gronfa Gyffredinol yn y Datganiad Symudiadau mewn Cronfeydd wrth Gefn fel nad oes taliad net yn erbyn y Gronfa Gyffredinol ar gyfer y gwariant.

Cedwir rhai cronfeydd wrth gefn penodol er mwyn rheoli'r prosesau cyfrifyddu ar gyfer asedau nad ydynt yn gyfredol, offerynnau ariannol, buddiannau ymddeol a buddiannau gweithwyr ac nid ydynt yn cynrychioli adnoddau y gellir eu defnyddio i'r Awdurdod – eglurir y cronfeydd wrth gefn hyn yn y polisïau perthnasol.

26. Gwariant refeniw a ariennir i Gyfalaf Dan Statud

Mae gwariant yr aethpwyd iddo yn ystod y flwyddyn y gellir ei gyfalafu dan ddarpariaethau statudol ond nad yw'n creu ased nad yw'n gyfredol wedi ei godi fel gwariant i'r gwasanaeth perthnasol yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr yn y flwyddyn. Pan fo'r Awdurdod wedi penderfynu cwrdd â chost y gwariant hwn o adnoddau cyfalaf presennol neu trwy fenthyca, mae trosglwyddiad yn y Datganiad Symudiadau mewn Cronfeydd wrth Gefn o Falans y Gronfa Gyffredinol i'r Cyfrif Addasiad Cyfalaf yna'n gwyrdroi'r symiau fel nad oes effaith ar Falans y Gronfa Gyffredinol.

27. Treth ar Werth

Mae'r TAW sy'n daladwy yn cael ei gynnwys fel traul dim ond i'r graddau nad yw'n adenilladwy gan Gyllid a Thollau EM. Mae'r TAW y gellir ei dderbyn yn cael ei eithrio o incwm.

Mae'r Awdurdod yn cyflenwi :

- Rhai gwasanaethau sy'n rhydd o TAW (e.e. darparu cyrsiau addysgol ym Mhlas Tan y Bwlch, rhentu tir ac adeiladau heb ddewis trethu ayb.), a
- Nwyddau a gwasanaethau eraill nad ydynt yn rhydd o TAW (e.e. gwerthiannau yn y bar ym Mhlas Tan y Bwlch, gwerthu coed, ayb.,)

Felly mae'r Awdurdod yn dod o fewn sgôp y rheoliadau Eithriad Rhannol TAW (yn cynnwys ar hyn o bryd y cynllun nwyddau cyfalaf). Trwy hyn ni all yr Awdurdod adennill yr holl dreth fewngyrch a gafwyd. Arfer yr Awdurdod yw cynnwys yr holl dreth fewngyrch na ellir ei hadennill gan Gyllid a Thollau EM o fewn costau'r gwasanaethau perthnasol.

Y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr

Dengys y datganiad hwn gostau cyfrifyddu yn y flwyddyn o ddarparu gwasanaethau yn unol ag arferion cyfrifyddu a dderbynnir yn gyffredinol.

2009/10 Gwariant Gros £'000	2009/10 Incwm Gros £'000	2009/10 Gwariant Net £'000		2010/11 Gwariant Gros £'000	2010/11 Incwm Gros £'000	2010/11 Gwariant Net £'000
			Cadwraeth a'r Amgylchedd Naturiol			
294	-12	282	Amgylchedd Naturiol a Choedwigaeth	287	- 5	282
406	-35	371	Cadwraeth ac Amaeth	413	- 77	336
700	**-47**	**653**		**700**	**-82**	**618**
			Cadwraeth a Threftadaeth Ddiwylliannol			
211	-3	208	Amgylchedd Adeiledig	260	-1	259
35	-16	19	MTT Dolgellau	144	-105	39
110	-27	83	Archeoleg	153	-58	95
66	-10	56	Bwrlwm Eryri	76	-1	75
422	**-56**	**366**		**633**	**-165**	**468**
			Dealltwriaeth	-		
1,088	-591	497	Canolfan Astudiaeth	1,136	-532	604
747	-14	733	Gwybodaeth & Addysg	802	-17	785
477	-144	333	Canolfannau Gwybodaeth	454	-128	326
2,312	**- 749**	**1,563**		**2,392**	**- 677**	**1,715**
			Rheoli Hamdden & Thraffig a Chludiant			
298	-85	213	Mynediad	401	-90	311
448	-47	401	Cyfleusterau Ymwelwyr Cyffredinol	360	-61	299
7,339	0	7,339	Hafod Eryri	77	0	77
230	-407	-177	Meysydd Parcio	125	-443	-318
27	-54	-27	Rheoli Llyn Tegid	-9	-56	-65
10	0	10	Casglu Sbwriel	14	0	14
0	-10	-10	Prosiectau Twristiaeth	20	-7	13
34	-19	15	Rheoli Traffig	9	0	9
8,386	**- 622**	**7,764**		**997**	**- 657**	**340**
			Wardeniaid, Gweithwyr Staf a Gwirfoddolwyr			
794	-33	761	Wardeniaid	757	-33	724
406	0	406	Gweithwyr Stad	370	0	370
1,200	**- 33**	**1,167**		**1,127**	**- 33**	**1,094**
13,020	**-1,507**	**11,513**	**Cost Net y Gwasanaeth c/y**	**5,849**	**-1,614**	**4,235**

Y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr (parhad)

2009/10 Gwariant Gros £'000	2009/10 Incwm Gros £'000	2009/10 Gwariant Net £'000		2010/11 Gwariant Gros £'000	2010/11 Incwm Gros £'000	2010/11 Gwariant Net £'000
13,020	**-1507**	**11,513**	**Cost net gwasanaeth d/y**	**5,849**	**-1,614**	**4,235**
613	**-230**	**383**	**Rheoli Datblygiad**	**627**	**- 168**	**459**
			Cynllunio Ymlaen a Chymunedau			
395	-6	389	Cynlluniau a Pholisi Strategol	540	- 35	505
354	-222	132	Cymuned ac Amgylchedd (yn cynn. CAE)	351	- 221	130
749	**- 228**	**521**		**891**	**- 256**	**635**
842	**-95**	**747**	**Corfforaethol & Democrataidd**	**759**	**-**	**759**
0	**0**	**0**	**Costau na ellir eu dosbarthu**	**-2,307**	**0**	**-2,307**
15,224	**- 2,060**	**13,164**	**Cost net gwasanaeth**	**5,819**	**- 2,038**	**3,781**
		-8	Gwariant Gweithredu Arall (nodyn 9)			-1
		238	Incwm a Gwariant Cyllido a Buddsoddi (nodyn 10)			158
		-6,062	Incwm grant amhenodol (nodyn 11)			-6,042
		7,332	**Gwarged (-) / Diffyg ar Ddarpariaeth Gwasanaethau am y flwyddyn**			**-2,104**
		-45	Gwarged neu Ddiffyg ar ailbrisio asedau nad ydynt yn gyfredol			-86
		6,579	Enillion/colledion actwaraidd ar asedau/rhwymedigaethau pensiwn			-5,766
		6,534	**Incwm a Gwariant Cynhwysfawr Arall**			**-5,852**
		13,866	**Cyfanswm Incwm a Gwariant Cynhwysfawr**			**-7,956**

Y FANTOLEN

Mae'r Fantolen yn dangos gwerth yr asedau a'r rhwymedigaethau a gydnabyddir gan yr Awdurdod ar ddyddiad y Fantolen. Mae asedau net yr Awdurdod (asedau llai rhwymedigaethau) yn cyd-fynd â'r cronfeydd wrth gefn sy'n cael eu dal gan yr Awdurdod. Adroddir ar gronfeydd wrth gefn mewn dau gategori. Mae'r categori cyntaf o gronfeydd wrth gefn yn gronfeydd wrth gefn defnyddiadwy, h.y. y cronfeydd wrth gefn hynny y gall yr Awdurdod eu defnyddio i ddarparu gwasanaethau, yn destun i'r angen i gynnal lefel ochelgar o gronfeydd wrth gefn ac unrhyw derfynau statudol ar eu defnydd (er enghraifft y Gronfa Derbynebion Cyfalaf Wrth Gefn y gellir ei defnyddio ar gyfer gwariant cyfalaf neu i dalu dyledion yn unig). Yr ail gategori o gronfeydd wrth gefn yw'r rheiny na all yr Awdurdod eu defnyddio i ddarparu gwasanaethau. Mae'r categori hwn o gronfeydd wrth gefn yn cynnwys cronfeydd wrth gefn sy'n dal enillion a cholledion heb eu gwireddu (er enghraifft y Gronfa Ailbrisiad wrth Gefn) ble dim ond ar ôl gwerthu'r asedau y byddai symiau'n dod ar gael i ddarparu gwasanaethau; a chronfeydd wrth gefn sy'n dal gwahaniaethau amseru a ddangosir yn y llinell Datganiad Symudiadau mewn Cronfeydd wrth Gefn "Addasiadau rhwng sail gyfrifyddu a sail ariannu dan y rheoliadau".

1 Ebr 2009	31 Maw 2010		Nodiadau	31 Maw 2011
£'000	£'000			£'000
17,881	10,310	Eiddo, Offer a Chyfarpar	12	10,129
65	71	Dyledwyr tymor hir	17	48
17,946	**10,381**	**Asedau tymor hir**		**10,177**
105	97	Rhestrau Stoc	16	86
411	429	Dyledwyr tymor byr	17	288
350	0	Buddsoddiadau tymor byr	15	700
2,388	2,985	Arian a Chyfateb ag Arian	18	2,738
3,254	**3,511**	**Asedau Cyfredol**		**3,812**
-55	0	Arian a Chyfateb ag Arian	18	0
-860	-880	Credydwyr tymor byr	20	-897
-915	**-880**	**Rhwymedigaethau cyfredol**		**-897**
-3,435	-10,028	Rhwymedigaeth Cronfa Bensiwn	45	-2,152
-3,435	**-10,028**	**Rhwymedigaethau tymor hir**		**-2,152**
16,850	**2,984**	**Asedau net**		**10,940**
2,556	2846	Cronfeydd Wrth Gefn Defnyddiadwy	22	3,080
14,294	138	Cronfeydd Wrth Gefn na ellir eu defnyddio	23	7,860
16,850	**2,984**	**Cyfanswm Cronfeydd Wrth Gefn**		**10,940**

Y DATGANIAD SYMUDIADAU MEWN CRONFEYDD WRTH GEFN

Dengys y datganiad hwn y symudiad yn y flwyddyn ar y gwahanol gronfeydd wrth gefn sy'n cael eu dal gan yr Awdurdod, wedi eu dadansoddi i "Gronfeydd wrth gefn defnyddiadwy" (h.y. y rheiny y gellir eu cymhwyso i ariannu gwariant) a chronfeydd wrth gefn eraill. Mae'r llinell Gwarged (+) neu Ddiffyg (-) ar Ddarpariaeth Gwasanaethau yn dangos gwir gost economaidd darparu gwasanaethau'r Awdurdod, y gwelir mwy o fanylion amdanynt yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr. Mae'r rhain yn wahanol i'r symiau statudol sy'n ofynnol eu codi ar Falans y Gronfa Gyffredinol. Mae'r Cynnydd/Gostyngiad Net cyn llinell Trosglwyddiadau i Gronfeydd Wrth Gefn a Glustnodwyd yn dangos Balans y Gronfa Gyffredinol statudol cyn unrhyw drosglwyddiadau disgresiwn i neu o gronfeydd wrth gefn a glustnodwyd a wneir gan yr Awdurdod.

	Balans Gronfa Gyffredinol	Cronfeydd wrth gefn a glustnodir	Cronfa wrth gefn Derbynebion	Cronfa wrth gefn grantiau cyfalaf heb eu defnyddio	**Cronfeydd wrth gefn defnyddiadwy**	Cronfeydd wrth gefn na ellir eu defnyddio	**Cronfeydd wrth Gefn yr Awdurdod**
	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
Balans a ddygwyd ymlaen o'r 31ain Mawrth 2009	**400**	**2,152**	**4**	**0**	**2,556**	**14,294**	**16,850**
Symudiadau mewn cronfeydd wrth gefn yn ystod 2009/10							
Gwarged neu (ddiffyg) wrth ddarparu gwasanaeth	-7332	0	0	0	-7332	0	-7332
Incwm a Gwariant Cynhwysfawr Arall	0	0	0	0	0	-6,534	-6,534
Cyfanswm Incwm a Gwariant Cynhwysfawr	**-7,332**	**0**	**0**	**0**	**-7,332**	**-6,534**	**-13,866**
Addasiadau rhwng sail gyfrifyddu a chyllido dan y rheoliadau (nodyn 7)	7622	0	0	0	7622	-7622	0
Cynnydd/gostyngiad net cyn trosglwyddo i Gronfeydd wrth Gefn a Glustnodwyd	**290**	**0**	**0**	**0**	**290**	**-14,156**	**-13,866**
Trosglwyddiadau i/o Gronfeydd wrth Gefn a Glustnodwyd (Nodyn 8)	-290	290	0	0	0	0	0
Cynnydd/gostyngiad yn 2009/10	0	290	0	0	290	-14,156	-13,866
Balans a gariwyd trosodd ar 31 Mawrth 2010	**400**	**2,442**	**4**	**0**	**2,846**	**138**	**2,984**

DATGANIAD SYMUDIADAU MEWN CRONFEYDD WRTH GEFN (PARHAD)

	Balans Gronfa Gyffredinol	Cronfeydd wrth gefn a glustnodir	Cronfa wrth gefn Derbynebion Cyfalaf	Cronfa wrth gefn grantiau cyfalaf heb eu defnyddio	**Cyfanswm Cronfeydd wrth gefn**	Cronfeydd wrth gefn na ellir eu defnyddio	**Cyfanswm Cronfeydd wrth Gefn yr**
	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
Balans a ddygwyd ymlaen o'r 31 Mawrth 2010	**400**	**2,442**	**4**	**0**	**2,846**	**138**	**2,984**
Symudiadau mewn cronfeydd wrth gefn yn ystod 2010/11							
Gwarged neu (ddiffyg) ar ddarpariaeth gwasanaeth	2104	0	0	0	2104		2104
Incwm a Gwariant Cynhwysfawr Arall	0	0	0	0	0	5,852	5,852
Cyfanswm Incwm a Gwariant Cynhwysfawr	**2,104**	**0**	**0**	**0**	**2,104**	**5,852**	**7,956**
Addasiadau rhwng sail gyfrifyddu a sail gyllid dan rheoliadau (nodyn 7)	-1870	0	0	0	-1870	1870	0
Cynnydd/Gostyngiad Net cyn trosglwyddo i Gronfeydd wrth gefn a glustnodwyd	**234**	**0**	**0**	**0**	**234**	**7,722**	**7,956**
Trosglwyddiadau i/o cronfeydd wrth gefn a glustnodwyd (Nodyn 8)	-234	194	0	40	0	0	0
Cynnydd/Gostyngiad yn 2010/11	0	194	0	40	234	7,722	7,956
Balans a gariwyd trosodd ar 31 Mawrth 2011	**400**	**2,636**	**4**	**40**	**3,080**	**7,860**	**10,940**

DATGANIAD LLIF ARIAN

Dengys y **Datganiad Llif Arian** y newidiadau mewn arian a chyfateb ag arian yr Awdurdod yn ystod y cyfnod adrodd. Dengys y datganiad sut mae'r Awdurdod yn cynhyrchu a defnyddio arian a chyfateb ag arian trwy ddosbarthu llif arian fel gweithgareddau gweithredol, buddsoddi a chyllido. Mae'r swm o lif arian neu sy'n deillio o weithgareddau gweithredol yn brif ddangosydd i'r graddau y mae gweithgareddau'r Awdurdod yn cael eu hariannu drwy incwm grant ac ardoll neu gan dderbynwyr y gwasanaethau a ddarperir gan yr Awdurdod. Mae gweithgareddau buddsoddi'n cynrychioli'r graddau y mae all-lif o arian wedi ei wneud ar gyfer adnoddau y bwriedir iddynt gyfrannu at gyflenwad gwasanaeth yr Awdurdod i'r dyfodol. Mae llif arian sy'n deillio o weithgareddau cyllido'n ddefnyddiol i ragweld hawliadau ar lif arian yn y dyfodol gan ddarparwyr cyfalaf (h.y. benthyca) i'r Awdurdod.

2009/10		**2010/11**
£'000		**£'000**
7,332	**(Gwarged) neu ddiffyg net ar ddarpariaeth gwasanaethau**	-2,104
-7,899	Addasiadau i warged neu ddiffyg net ar ddarpariaeth gwasanaethau am symudiadau anariannol (nodyn 24)	1,409
135	Addasiadau ar gyfer eitemau a gynhwyswyd yn y gwarged neu ddiffyg net ar ddarpariaeth gwasanaethau sy'n weithgareddau buddsoddi a chyllido	173
-432	**Llif arian net o Weithgraeddau Gweithredol (nodyn 24)**	**-522**
-206	Gweithgareddau Buddsoddi (nodyn 25)	803
-14	Gweithgareddau Cyllido (nodyn26)	-34
-652	Cynnydd (-) neu ostyngiad (+) net mewn arian neu cyfateb ag arian	**247**
2,333	Arian neu cyfateb ag arian ar gychwyn cyfnod adrodd	2,985
2,985	**Arian neu cyfateb ag arian ar ddiwedd cyfnod adrodd**	**2,738**

NODIADAU I'R DATGANIADAU ARIANNOL

1 TRAWSNEWID I IFRS

Y Datganiad Cyfrifon i 2010/11 yw'r cyntaf i gael ei ddarparu ar sail IFRS. Mae mabwysiadu Cod sail-IFRS wedi arwain at ailddatganiad o amrywiol falansau a thrafodion, gyda'r canlyniad bod rhai symiau a gyflwynir yn y datganiadau ariannol yn wahanol i'r ffigyrau cyfatebol a gyflwynir yn y Datganiad Cyfrifon i 2009/10.

Mae'r tablau canlynol yn esbonio'r gwahaniaethau perthnasol rhwng y symiau a gyflwynwyd yn y datganiadau ariannol 2009/10 a'r symiau cyfatebol a gyflwynir yn y datganiadau ariannol 2010/11.

Hafod Eryri wedi ei daflunio ar sail gwerth 2009/10 dros gyfnod y les sy'n diweddu ar 30ain Medi 2981).

Mae'r taliad dibrisiant cysylltiedig ar yr asedau perthnasol i brydlesau gweithredol yn £6,984 (2009/10 £6,942).

39. MENTER CYLLID PREIFAT A CHYTUNDEBAU TEBYG

Nid oes gan yr Awdurdod unrhyw gontractau o'r fath.

40. COLLEDION AMHARIAD

Yn ystod 2010/11 mae'r Awdurdod wedi cydnabod colled amhariad o £123,122 yng nghyswllt :

- gwariant cyfalaf sydd ddim yn gwella (£40,943) ym Mhlas Tan y Bwlch (£23,729) a'r prif swyddfeydd (£17,213), a
- gwerth llyfr net un trelar a gafodd ei ddwyn tra'n cael ei ddefnyddio gan yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol (£6,195), a
- gwerth llyfr net un cerbyd a werthwyd (£2,819), a
- ailbrisiad cyfleusterau ym Mhen y Pass (£73,165) gyda'r gost wedi ei rannu rhwng y gwasanaeth Wardeniaid a'r gwasanaeth Cyfleusterau Ymwelwyr

yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.

41. BUDDIANNAU TERFYNU

Mae'r Cyfrif Incwm a Gwariant Cynhwysfawr 2010/11 yn cynnwys costau buddiannau terfynu 7 gweithiwr yn eu llinellau gwasanaeth priodol. Mae'r cyfanswm cost o £264,903 yn cynnwys taliadau diswyddo (£184,915) a chyfraniadau lwmp-swm (£79,988) i'r Gronfa Bensiwn.

42. RHWYMEDIGAETHAU AMODOL

Ar 31 Mawrth 2011 roedd gan yr Awdurdod un rhwymedigaeth amodol berthnasol:

Mae prosiect Hafod Eryri wedi ei gwblhau, a derbyniwyd cyfrif terfynol ond nid yw wedi ei gytuno. Mae rhwymedigaeth posibl wedi codi o'r prosiect ond gan na ellir cadarnhau na rhoi amcangyfrif dibynadwy arno ar hyn o bryd, nid yw hwn wedi ei gynnwys fel cost yn y cyfrifon.

43. ASEDAU AMODOL

Ar 31 Mawrth 2011 nid oedd gan yr Awdurdod unrhyw asedau amodol perthnasol.

44. NATUR A MAINT RISGIAU'N DEILLIO O OFFERYNNAU CYLLIDOL

Gall gweithgareddau'r Awdurdod ei wneud yn agored i amrywiaeth o risgiau ariannol:

- **Risg credyd** – y posibilrwydd y gall partïon eraill fethu â thalu symiau dyledus i'r Awdurdod,
- **Risg hylifedd** – y posibilrwydd na fydd gan yr Awdurdod arian ar gael i gwrdd â'i ymrwymiadau i wneud taliadau,
- **Risg marchnad** – y posibilrwydd y gall yr Awdurdod ddioddef colled ariannol o ganlyniad i newid mewn mesurau fel graddfeydd llog.

Rheolir y risgiau uchod drwy drefniadau adennill dyledion yr Awdurdod a'r Strategaeth Rheoli Trysorlys Blynyddol.

Nid oes unrhyw risgiau credyd na hylifedd canfodedig.

45. Y GRONFA BENSIWN

Cyfranogi mewn Cynlluniau pensiwn

Fel rhan o delerau ac amodau cyflogaeth ei swyddogion, mae'r Awdurdod yn gwneud cyfraniadau tuag at gost buddiannau ôl gyflogaeth. Er na fydd y buddiannau hyn yn daladwy hyd nes bo'r gweithwyr yn ymddeol, mae gan yr Awdurdod ymrwymiad i wneud y taliadau sydd angen eu datgelu ar yr adeg mae gweithwyr yn ennill eu hawl i'r dyfodol.

Mae'r Awdurdod yn cymryd rhan mewn dau gynllun ôl gyflogaeth :

- Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol, a weinyddir yn lleol gan Gyngor Gwynedd - mae hwn yn gynllun buddiant diffiniedig cyflog terfynol a ariennir, sy'n golygu fod yr Awdurdod a gweithwyr yn talu cyfraniadau i gronfa, a gyfrifir ar lefel y bwriedir iddi gydbwyso'r rhwymedigaethau pensiwn gydag asedau buddsoddi.

- Ôl fuddiannau ymddeol disgresiwn wrth ymddeol yn gynnar. Mae hwn yn drefniant buddiant diffiniedig heb ei gyllido, y cydnabyddir rhwymedigaethau iddo pan fo'r dyfarniadau wedi eu gwneud. Ni adeiladwyd unrhyw asedau buddsoddi i gwrdd â'r rhwymedigaethau pensiynau hyn, a rhaid cynhyrchu arian i gwrdd â'r taliadau pensiwn gwirioneddol fel y dônt yn ddyledus. Mae gan yr Awdurdod

rwymedigaeth flynyddol wedi ei seilio ar ddyfarniadau yn y gorffennol a wnaethpwyd dan y trefniadau hyn, ond nid yw wedi ychwanegu at y rhwymedigaeth hon mewn blynyddoedd diweddar. Yn hytrach, cydnabyddir unrhyw rwymedigaeth bensiwn ychwanegol sy'n deillio o ganiatáu ymddeol yn gynnar a'i dalu yn y flwyddyn benodol honno.

Trafodion yn Gysylltiedig â Buddiannau ôl Gyflogaeth

Rydym yn cydnabod cost buddiannau ymddeol yn y gost gwasanaethau sy'n destun adroddiad pan gânt eu hennill gan weithwyr, yn hytrach na phan fo'r fath fuddiannau'n cael eu talu yn y pen draw fel pensiynau. Fodd bynnag, mae'r tâl y mae gofyn i ni ei godi yn erbyn y Gronfa Gyffredinol wedi ei seilio ar yr arian sy'n daladwy yn y flwyddyn, felly mae cost gwirioneddol ôl gyflogaeth /buddiannau ymddeol yn cael ei wyrdroi allan o'r Gronfa Gyffredinol trwy'r Datganiad Symudiad mewn Cronfeydd Wrth Gefn. Mae'r trafodion canlynol wedi'u gwneud yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr a Balans y Gronfa Gyffredinol trwy'r Datganiad Symudiad mewn Cronfeydd Wrth Gefn yn ystod y flwyddyn.

	Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (£'000)	
	2009/10	**2010/11**
Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr		
Cost Gwasanaethau :		
• cost bresennol y gwasanaeth	454	710
• costau blaenorol y gwasanaeth / (enilliad)	0	(2,307)
• setliadau a chwtogiadau	0	
Cyllido a Buddsoddi Incwm a Gwariant		
• cost llog	968	1,304
• dychweliad disgwyliedig ar asedau cynllun	(696)	(1113)
Cyfanswm buddiant ôl gyflogaeth a godir ar y Gwarged neu Ddiffyg ar y Darpariaeth Gwasanaethau	**726**	**(1,406)**
Buddiant ôl gyflogaeth arall a godir ar y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr		
• enillion a cholledion actwaraidd	**(6,579)**	**5,766**
Cyfanswm Buddiant ôl gyflogaeth a godir ar y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr		
Datganiad Symudiad mewn Cronfeydd Wrth Gefn		
• gwyrdroi taliadau neu a wneir i'r Gwarged neu Ddiffyg ar gyfer Darpariaeth Gwasanaethau i fuddiannau ôl gyflogaeth yn unol â'r Cod	**(726)**	**1,406**
Swm gwirioneddol a godwyd yn erbyn Balans y Gronfa Gyffredinol ar gyfer pensiynau yn y flwyddyn :		
• cyfraniadau cyflogwr sy'n daladwy i'r cynllun	**712**	**703**
• buddiannau ymddeol sy'n daladwy i bensiynwyr		

Mae'r swm cronnus o enillion a cholledion actwaraidd a gydnabyddir yn y Datganiadau Incwm a Gwariant Cynhwysfawr hyd at 31 Mawrth 2010/11 yn golled o £3,060,000.

Asedau a Rhwymedigaethau yng nghyswllt Buddiannau ôl Gyflogaeth

Cysoniad o werth presennol rhwymedigaethau'r cynllun (rhwymedigaeth buddiant diffiniedig) :

	Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (£'000)	
	2009/10	**2010/11**
Balans agoriadol ar 1 Ebrill	**13,829**	**25,281**
Cost bresennol gwasanaeth	454	710
Cost llog	968	1,304
Cyfraniadau gan gyfranogwyr y cynllun	247	215
Enillion Actwaraidd a (cholledion)	10,068	(5,502)
Buddiannau a dalwyd	(285)	(474)
Costau gwasanaethau blaenorol	0	(2,307)
Cyfuniadau endid	0	0
Cwtogiadau	0	0
Setliadau	0	0
Gweddill terfynol 31 Mawrth	**25,281**	**19,227**

Cysoniad o werth presennol asedau'r cynllun :

	Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (£'000)	
	2009/10	**2010/11**
Balans agoriadol ar 1 Ebrill	**10,394**	**15,253**
Graddfa dychweliad disgwyliedig	696	1,113
Enillion a cholledion actwaraidd	3,489	264
Cyfraniadau'r cyflogwr	713	703
Cyfraniadau gan gyfranogwyr y cynllun	247	215
Buddiannau a dalwyd	(286)	(473)
Cyfuniadau endid	0	0
Setliadau	0	0
Gweddill terfynol 31 Mawrth	**15,253**	**17,075**

Pennir y dychweliad disgwyliedig ar asedau'r cynllun trwy ystyried y dychweliadau disgwyliedig sydd ar gael ar yr asedau sy'n waelodol i'r polisi buddsoddi presennol. Mae'r cynnyrch disgwyliedig ar fuddsoddiadau llog sefydlog wedi ei seilio ar y cynnyrch adbryniant gros yn ôl dyddiad y Fantolen.

Mae'r dychweliadau disgwyliedig ar fuddsoddiadau soddgyfran yn adlewyrchu graddfeydd gwirioneddol tymor hir y dychweliad a gafwyd yn y marchnadoedd priodol.

Roedd y dychweliad gwirioneddol ar asedau'r cynllun yn y flwyddyn yn £1.2m (2009/10 £4.2m)

Yn natganiad cyllideb DU ar 22 Mehefin 2010 cyhoeddodd y Canghellor y byddai pensiynau gwasanaeth cyhoeddus o 1 Ebrill 2011 yn cael eu huwchraddio yn unol â'r Mynegai Prisiau Defnyddwyr (CPI) yn hytrach na'r Mynegai Prisiau Manwerthu (RPI).

Mae hyn yn cael effaith o leihau rhwymedigaethau Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri yng Nghronfa Bensiwn Gwynedd o £2,307,000 ac mae wedi'i ddynodi fel enilliad gwasanaeth blaenorol yn unol â'r canllaw a osodwyd i lawr yn UITF Crynodeb 48, oherwydd ystyrir bod y newid yn newid mewn hawl i fuddiant. Nid oes effaith ar y Gronfa Gyffredinol.

Hanes y Cynllun

	2006/07	**2007/08**	**2008/09**	**2009/10**	**2010/11**
Gwerth presennol rhwymedigaethau yn y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol	(16,490)	(13,896)	(13,829)	(25,281)	(19,227)
Gwerth Teg Asedau yn y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol	12,507	12,424	10,394	15,253	17,075
Gwarged / (diffyg) yn y cynllun :	**(3,983)**	**(1,472)**	**(3,435)**	**(10,028)**	**(2,152)**

Dengys y rhwymedigaethau yr ymrwymiadau gwaelodol sydd gan yr Awdurdod yn y tymor hir i dalu buddiannau ôl gyflogaeth (ymddeoliad). Mae'r cyfanswm rhwymedigaeth o £19.2m yn cael effaith sylweddol ar werth net yr Awdurdod fel y caiff ei gofnodi yn y Fantolen h.y. ei leihau o £2.15m. Golyga darpariaethau statudol ar gyfer ariannu'r diffyg bod sefyllfa ariannol yr Awdurdod yn parhau'n iach :

- gwneir iawn am y diffyg yn y cynllun llywodraeth leol trwy gyfraniadau uwch dros weddill oes waith gweithwyr (h.y. cyn bod y taliadau'n dod yn ddyledus), fel yr asesir gan actwari'r cynllun,
- dim ond ar gyfer buddiannau disgresiwn pan fo'r pensiynau'n cael eu talu'n wirioneddol mae angen codi cyllid.

Mae cyfanswm cyfraniadau gan yr Awdurdod, fel yr amcangyfrifir gan yr Actwari, am y flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2012 yn £649,000.

Sail ar Gyfer Amcangyfrif Asedau a Rhwymedigaethau

Aseswyd rhwymedigaethau ar sail actwaraidd gan ddefnyddio'r dull credyd uned rhagamcanedig, amcangyfrif o'r pensiynau a fydd yn daladwy mewn blynyddoedd i ddod gan ddibynnu ar ragdybiaethau ynghylch graddfeydd marwoledd, lefelau cyflog, ayb. Mae rhwymedigaethau'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol a Buddiannau Disgresiwn wedi eu hasesu gan Hymans Robertson, cwmni annibynnol o actwaryddion, gyda'r rhagamcanion i Gronfa'r Awdurdod wedi ei seilio ar y gwerthusiad llawn olaf o'r cynllun ar 31 Mawrth 2010.

Y prif ragdybiaethau a ddefnyddiwyd gan yr actwari oedd :

	Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (£'000)	
	2009/10	**2010/11**
Graddfa dychweliad disgwyliedig tymor hir ar asedau yn y cynllun :		
Soddgyfran	7.8%	7.5%
Bondiau	5%	4.9%
Eiddo	5.8%	5.5%
Arian	4.8%	4.6%
Rhagdybiaethau Marwoledd :		
Hirhoedledd yn 65 i bensiynwyr presennol :		
• Dynion	20.8 mlynedd	20.5 mlynedd
• Merched	24.1 mlynedd	23 mlynedd
Hirhoedledd yn 65 i bensiynwyr y dyfodol :		
• Dynion	22.3 mlynedd	23.3 mlynedd
• Merched	25.7 mlynedd	25.6 mlynedd
Graddfa chwyddiant (CPI)	3.8%	2.8%
Graddfa cynnydd mewn cyflogau	5.3%	5.1%
Graddfa cynnydd mewn pensiynau	7.2%	6.9%
Graddfa ar gyfer disgowntio rhwymedigaethau'r cynllun	5.5%	5.5%
Defnyddio'r opsiwn i drosi pensiwn blynyddol i lwmp swm ymddeoliad	50% cyn gwasanaeth 1/4/2008 a 75% ôl gwasanaeth 1/4/2008.	50% cyn gwasanaeth 1/4/2008 a 75% ôl gwasanaeth 1/4/2008.

Nid oes gan y trefniadau Buddiannau Disgresiwn unrhyw asedau i ymdrin â'u rhwymedigaethau. Mae asedau'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol yn cynnwys y categorïau canlynol, fesul cyfran o'r cyfanswm ac asedau sy'n cael eu dal :

31 Mawrth 2010		**31 Mawrth 2011**
(%)		**(%)**
77	Buddsoddiadau soddgyfran	76
15	Buddsoddiadau dyled (bondiau)	13
8	Asedau eraill	11
100		**100**

Hanes Profiad Enillion a Cholledion

Gellir dadansoddi'r enillion actwaraidd a ddynodwyd fel symudiadau ar y Gronfa Bensiwn Wrth Gefn yn 2010/11 i'r categorïau canlynol, wedi'u mesur fel canran o asedau neu rwymedigaethau ar 31 Mawrth 2011 :

	2006/07	**2007/08**	**2008/09**	**2009/10**	**2010/11**
	(%)	**(%)**	**(%)**	**(%)**	**(%)**
Gwahaniaethau rhwng y dychweliad disgwyliedig a'r gwirioneddol ar asedau.	0.1	-12.7	-34.2	22.9	0.8
Profiad o enillion a (cholledion) ar rwymedigaethau	0.1	4.6	0	0	12.1

ADRODDIAD YR ARCHWILYDD ANNIBYNNOL I AELODAU AWDURDOD PARC CENEDLAETHOL ERYRI

Rwyf wedi archwilio datganiadau cyfrifyddu a nodiadau cysylltiedig:

- Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri

am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2011 o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004.
Mae datganiadau cyfrifyddu Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri yn cynnwys y Datganiad Symud Cronfeydd wrth Gefn, y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr, y Fantolen a'r Datganiad Llif Arian Parod, .
Y fframwaith adrodd ariannol a gymhwyswyd wrth eu paratoi yw'r gyfraith berthnasol a'r Cod Ymarfer ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2010/11 yn seiliedig ar y Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRS).

Priod gyfrifoldebau'r swyddog ariannol cyfrifol a'r archwilydd annibynnol

Fel yr esbonnir yn fanylach yn y Datganiad o Gyfrifoldebau ar gyfer y Datganiad Cyfrifon [a nodir ar dudalennau 22 i 27], mae'r swyddog ariannol cyfrifol yn gyfrifol am baratoi'r datganiad cyfrifon sy'n rhoi darlun cywir a theg.
Fy nghyfrifoldeb i yw archwilio'r datganiadau cyfrifyddu a'r nodiadau cysylltiedig yn unol â'r gyfraith berthnasol a'r Safonau Archwilio Rhyngwladol (y DU ac Iwerddon). Mae'r safonau hynny yn ei gwneud yn ofynnol i mi gydymffurfio â Safonau Moesegol y Bwrdd Arferion Archwilio ar gyfer Archwilwyr.

Cwmpas yr archwiliad o'r datganiadau cyfrifyddu

Cynhelir archwiliad er mwyn cael tystiolaeth am y symiau a'r datgeliadau yn y datganiadau cyfrifyddu a'r nodiadau cysylltiedig i roi sicrwydd rhesymol nad oes unrhyw gamddatganiadau perthnasol yn y datganiadau cyfrifyddu na'r nodiadau cysylltiedig, boed hynny drwy dwyll neu wall. Mae hyn yn cynnwys asesu'r canlynol: pa un a yw'r polisïau cyfrifyddu yn briodol i amgylchiadau Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri a pha un a ydynt wedi'u cymhwyso'n gyson a'u datgelu'n ddigonol; rhesymoldeb amcangyfrifon cyfrifyddu sylweddol a wnaed gan y swyddog ariannol cyfrifol a chyflwyniad cyffredinol y datganiadau cyfrifyddu a'r nodiadau cysylltiedig.
Yn ogystal, darllenaf yr holl wybodaeth ariannol ac anariannol yn y Rhagair Eglurhaol er mwyn nodi anghysondebau perthnasol â'r datganiadau cyfrifyddu a'r nodiadau cysylltiedig archwiliedig. Os dof yn ymwybodol o unrhyw gamddatganiadau neu anghysondebau perthnasol amlwg, ystyriaf y goblygiadau i'm hadroddiad.

Barn ar ddatganiadau cyfrifyddu Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri

Yn fy marn i, mae'r datganiadau cyfrifyddu a'r nodiadau cysylltiedig:

- yn rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa ariannol Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri ar 31 Mawrth 2011 a'i incwm a'i wariant am y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny;
- wedi'u paratoi'n briodol yn unol â'r Cod Ymarfer ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2010/11.

Barn ar faterion eraill

Yn fy marn i, mae'r wybodaeth a gynhwysir yn y Rhagair Eglurhaol ar gyfer y flwyddyn ariannol y paratowyd y datganiadau cyfrifyddu a'r nodiadau cysylltiedig ar ei chyfer yn gyson â'r datganiadau cyfrifyddu a'r nodiadau cysylltiedig.

Materion y cyflwynaf adroddiad arnynt drwy eithriad

Nid oes gennyf unrhyw beth i gyflwyno adroddiad arno o ran y Datganiad Llywodraethu y cyflwynaf adroddiad i chi yn ei gylch os na fydd, yn fy marn i, yn adlewyrchu cydymffurfiaeth â 'Delivering Good Governance in Local Government: Framework' a gyhoeddwyd gan CIPFA/SOLACE ym mis Mehefin 2007, neu os yw'r datganiad yn gamarweiniol neu'n anghyson â gwybodaeth arall yr wyf yn ymwybodol ohoni o'm harchwiliad.

Tystysgrif cwblhau'r archwiliad

Ardystiaf fy mod wedi cwblhau'r archwiliad o gyfrifon Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri yn unol â gofynion Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 a'r Cod Ymarfer Archwilio a gyhoeddwyd gan Archwilydd Cyffredinol Cymru.

ANTHONY BARRETT

Archwilydd Apwyntiedig
24, Heol y Gadeirlan,
Caerdydd CF11 0LJ

Dyddiad 30 Medi 2011

(Cyfrifoldeb yr Awdurdod yw cynnal a chadw gwefan Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri a sicrhau ei chywirdeb; nid yw'r gwaith a gynhaliwyd gan yr archwilwyr yn cynnwys ystyried y materion hyn ac, yn unol â hynny, nid yw'r archwilwyr yn derbyn unrhyw gyfrifoldeb am unrhyw newidiadau y gellid bod wedi'u gwneud i'r datganiad cyfrifon ers iddo gael ei roi ar y wefan yn gyntaf).

DATGANIAD LLLYWODRAETHU BLYNYDDOL

Mae'r datganiad hwn yn bodloni'r gofyniad i gynhyrchu Datganiad Rheolaeth Fewnol yn unol â Rheoliad 4 o Reoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2005 (fel y'i diwygiwyd yn 2010).

Rhan 1: CWMPAS Y CYFRIFOLDEB

Mae Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri yn gyfrifol am sicrhau bod ei fusnes yn cael ei gynnal yn unol â'r gyfraith a safonau priodol, a bod arian cyhoeddus yn cael ei ddiogelu a chyfrif amdano'n briodol, ac yn cael ei ddefnyddio mewn ffordd economaidd, effeithlon ac effeithiol. Mae Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri yn Awdurdod Gwella Cymru o dan Adran 1 o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 ac felly mae ganddo ddyletswydd gyffredinol o dan Adran 2 i roi trefniadau mewn lle i sicrhau gwelliant parhaus yn y ffordd y mae'n ymgymryd â'i ddyletswyddau.

Wrth gyflawni'r cyfrifoldeb cyffredinol hwn, mae Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri hefyd yn gyfrifol am roi trefniadau priodol mewn lle ar gyfer llywodraethu ei swyddogaethau, hwyluso gweithrediad effeithiol ei weithgareddau, sy'n cynnwys trefniadau ar gyfer rheoli risg a rheolaeth ariannol ddigonol ac effeithiol.

Bydd Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri yn cyflwyno ei god llywodraethu corfforaethol drafft i'w gymeradwyo yng nghyfarfod yr Awdurdod ym Medi 2011. Nid yw hyn yn gorfodi unrhyw newid yn y trefniadau llywodraethu eisoes mewn lle ac a ymgorfforwyd yn y cod drafft. Mae'r datganiad hwn yn esbonio sut y mae'r Awdurdod wedi cydymffurfio â'r cod yn ogystal â bodloni gofynion rheoliad 4(2) o Reoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2005 (fel y'i diwygwyd yn 2010) mewn perthynas â chyhoeddi datganiad rheolaeth fewnol.

Rhan 2: PWRPAS Y FFRAMWAITH LLYWODRAETHU

Mae'r fframwaith llywodraethu'n cynnwys y systemau a'r prosesau, y diwylliant a'r gwerthoedd, fydd yn cyfeirio ac yn rheoli'r awdurdod, ynghyd â'r gweithgareddau ble mae'n adrodd i, yn cysylltu â, ac yn arwain y gymuned. Mae'n galluogi'r awdurdod i fonitro llwyddiant ei amcanion strategol, ac ystyried a yw'r amcanion hynny wedi arwain at ddarparu gwasanaethau addas a chost effeithiol.

Mae'r system rheolaeth fewnol yn rhan allweddol o'r fframwaith hwnnw ac mae wedi'i ddylunio i reoli risg i lefel resymol yn hytrach na chael gwared ar bob risg o fethiant i gyflawni polisïau, nodau ac amcanion; gall felly ond darparu sicrwydd rhesymol o effeithiolrwydd yn hytrach na sicrwydd diamod. Mae'r system rheolaeth fewnol yn seiliedig ar broses barhaus sydd wedi'i ddylunio i adnabod a blaenoriaethu risgiau i gyflawni polisïau, nodau ac amcanion Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri, i werthuso'r tebygolrwydd i'r risgiau hynny gael eu gwireddu a'r effaith petai hynny'n digwydd, a'u rheoli mewn ffordd effeithlon, effeithiol ac economaidd.

Mae'r fframwaith llywodraethu a ddisgrifir uchod wedi bod mewn grym yn Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri ar gyfer y flwyddyn sy'n diweddu 31 Mawrth 2011 a hyd at ddyddiad cymeradwyo'r datganiad o gyfrifon.

Rhan 3: Y FFRAMWAITH LLYWODRAETHU

Mae elfennau allweddol y systemau a'r prosesau sy'n cwmpasu trefniadau fframwaith llywodraethu Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri fel a ganlyn:

Adnabod a chyfathrebu gweledigaeth yr awdurdod

- Mae Cynllun Rheolaeth Parc Cenedlaethol Eryri 2010-15 yn darparu fframwaith polisi strategol ar gyfer y Parc. Cafodd ei gynhyrchu gyda chymorth amrediad o sefydliadau gan gynnwys Cyngor Cefn Gwlad Cymru, Asiantaeth yr Amgylchedd, Cadw, awdurdodau lleol, undebau'r ffermwyr a chynghorau cymuned. Mae'n nodi amcanion strategol yr Awdurdod sy'n cefnogi'r themâu a ganlyn

    1. Rheoli Carbon;
    2. Gwella Cynefinoedd;
    3. Gwella Tirweddau;
    4. Hyrwyddo Treftadaeth Ddiwylliannol;
    5. Gwella Cyfleoedd Mynediad a Dealltwriaeth i Bawb;
    6. Cynnal Cymunedau Cynaliadwy.

- Caiff Adroddiad Blynyddol a Chynllun Gwella ei baratoi bob blwyddyn sy'n amlinellu gwaith allweddol yr Awdurdod ar gyfer y flwyddyn a'r gwaith sy'n gysylltiedig â chyflawni'r amcanion, ynghyd ag amserlen.

Adolygu gweledigaeth yr awdurdod a'i goblygiadau ar gyfer y trefniadau llywodraethu

- Mae Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 yn gosod dyletswydd ar yr Awdurdod i wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus. Mae'r Mesur yn ei gwneud yn ofynnol i'r Awdurdod:

    a) fabwysiadu a chyhoeddi Cynllun Gwella (Ebrill). Rhaid i'r cynllun gynnwys amcanion gwella.

    b) cymeradwyo a chyhoeddi (Hydref) asesiad o berfformiad sy'n ymwneud â'n cynlluniau ac amcanion gwella.

  Rhan allweddol o'r Cynllun Gwella yw gosod amcanion gwella ac adrodd ynghylch yr hyn sy'n cael ei gyflawni yn erbyn yr amcanion hynny.

- Cyflwynir adroddiad ar y Gyllideb Refeniw Sylfaenol ar gyfer y flwyddyn ddilynol gerbron yr Awdurdod bob Rhagfyr, a chaiff ei gymeradwyo'n ffurfiol ym mis Chwefror.

Mesur ansawdd y gwasanaethau i ddefnyddwyr, i sicrhau eu bod yn cael eu darparu'n unol ag amcanion yr awdurdod a'r defnydd gorau o adnoddau

- Mae'r Awdurdod wedi datblygu dangosyddion perfformiad, nifer ohonynt yn rhai statudol ac eraill wedi'u datblygu'n lleol. Mae'r dangosyddion wedi'u pennu fel rhai craidd, gwasanaeth neu leol. Bydd adroddiad ar y dangosyddion perfformiad yn cael ei gyflwyno gerbron y Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau pob chwarter i'w drafod.

- Fel rhan o'r cynnydd a wneir i fesur ansawdd y gwasanaethau i ddefnyddwyr, mae Canolfan Astudiaethau'r Awdurdod, Plas Tan y Bwlch, wedi sicrhau safon Rhagoriaeth mewn Gwasanaethau Cwsmeriaid, ac mae'n amcan cyffredinol y bydd yr Awdurdod cyfan yn anelu at gyrraedd y safon Rhagoriaeth mewn Gwasanaethau Cwsmeriaid.

- Yn dilyn deddfwriaeth newydd ym mis Ebrill 2010, mae Swyddfa Archwilio Cymru yn cynhyrchu Adroddiad Gwella Blynyddol. Mae'r adroddiad yn edrych ar yr hyn y mae'r

Awdurdod yn ceisio'i gyflawni ac adrodd ar y cynnydd trwy ganolbwyntio ar y meysydd y mae'r Awdurdod wedi rhoi blaenoriaeth iddynt.

- Mae trefniadau ar gyfer gwasanaeth archwilio mewnol ag adolygiadau wedi'u cynnwys mewn cynllun blynyddol.

Diffinio a dogfennu'r cyfrifoldebau, â threfniadau dirprwyo clir ar gyfer cyfathrebu'n effeithiol

- Yn ystod 2010/11 roedd gan yr Awdurdod strwythur rheoli a oedd yn cynnwys Prif Weithredwr (sydd hefyd yn "Swyddog y Parc Cenedlaethol" a Phennaeth y Gwasanaeth Cyflogedig) a phedwar Cyfarwyddwr. Gyda'i gilydd, y rhain yw Tîm Rheoli Corfforaethol yr Awdurdod. Bydd nifer y cyfarwyddwyr yn gostwng i 3 yn ystod 2011/12.
- Mae'r Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol wedi'i enwebu fel y Swyddog Monitro a'r Prif Swyddog Cyllid – Pennaeth Cyllid Cyngor Gwynedd – yw'r swyddog â chyfrifoldebau o dan Adran 151 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972.
- Cynhelir cyfarfodydd y Tîm Rheoli bob pythefnos, â'r Pennaeth Cyllid a'r Pennaeth Personél yn bresennol, yn ogystal â dau bennaeth gwasanaeth arall ar sail rota.
- Cynhelir Pwyllgor Safonau ddwywaith y flwyddyn; ei bwrpas yw hybu a chynnal safonau ymddygiad uchel gan aelodau, a'u cynorthwyo i lynu at God Ymddygiad yr Awdurdod.

Datblygu a chyfathrebu codau ymddygiad ar gyfer aelodau a staff

- Mae Cod Ymddygiad i Aelodau wedi'i sefydlu ar gyfer Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri sy'n cynnwys rhan sy'n cyfeirio'n benodol at fuddiannau a Chofrestr Buddiannau'r Aelodau.

Adolygu a diweddaru prosesau a rheolau sy'n angenrheidiol i reoli risgiau

- Mae Polisi a Strategaeth Rheoli Risg mewn lle. Caiff y broses o adnabod risgiau ei harwain a'i chydlynu gan y Grŵp Rheoli Risg, gyda mewnbwn gan y Tîm Rheoli a'r Penaethiaid Gwasanaeth. Mae'r gofrestr risg yn rhestru'r risgiau ynghyd â'r swyddogion sy'n gyfrifol am eu rheoli. Mae'r dyddiad targed ar gyfer camau lliniaru yn cael ei nodi hefyd. Caiff y gofrestr ei hadolygu bob chwarter gan y Grŵp Rheoli Risg.
- Mae Awdurdod y Parc Cenedlaethol yn anelu at isafu unrhyw risg trwy'r broses hon.
- Mae Rheolau Sefydlog yr Awdurdod yn amlinellu'r trefniadau priodol y dylid eu dilyn ar gyfer cofnodi yng nghyfarfodydd Pwyllgorau a chyfeirio penderfyniadau.
- Mae'r Awdurdod wedi mabwysiadu proffil risg. Mae'r risgiau wedi eu rhannu yn dri math - blaenoriaeth uchel, canolig ac isel. Mae'r Awdurdod yn diweddaru ei broffil risg bob blwyddyn.

Swyddogaeth y pwyllgor archwilio

- Mae'r Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau yn ymgymryd â swyddogaethau pwyllgor archwilio yn unol â gofynion CIPFA.
- Darperir y gwasanaeth Archwilio Mewnol yn unol â Chod Ymarfer CIPFA ar gyfer Archwilio Mewnol mewn Llywodraeth Leol yn y Deyrnas Unedig. Mae'r Cod yn datgan mai swyddogaeth rhoi sicrwydd yw Archwilio Mewnol sy'n darparu barn annibynnol a gwrthrychol i'r sefydliad ar yr amgylchedd rheolaeth, trwy werthuso ei effeithiolrwydd o ran sicrhau amcanion y sefydliad. Mae'n archwilio, yn gwerthuso ac yn adrodd yn wrthrychol ar ddigonolrwydd yr amgylchedd rheolaeth fel cyfraniad at ddefnydd priodol, economaidd, effeithlon ac effeithiol o adnoddau.

- Yn unol â gofynion Cod Ymarfer CIPFA, mae'r Rheolwr Archwilio Mewnol yn paratoi adroddiad blynyddol sy'n crynhoi canlyniadau gwaith archwilio mewnol yn ystod y flwyddyn ar y system rheolaeth fewnol gyffredinol yn yr Awdurdod.

Sicrhau cydymffurfiaeth â deddfau, rheoliadau, polisïau mewnol perthnasol a bod gwariant yn gyfreithlon

- Disgwylir i archwilwyr mewnol ac allanol yr Awdurdod adrodd i'r swyddogion perthnasol ynghylch unrhyw fethiant i gydymffurfio naill ai â pholisi neu ddeddfwriaeth.
- Mae Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri wedi paratoi polisïau Iechyd, Diogelwch a Lles Corfforaethol, yn unol â Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1974. Mae'r polisi'n datgan bod yr Awdurdod yn cydnabod ac yn derbyn, gyhyd ag sy'n rhesymol ymarferol, ei ddyletswyddau fel cyflogwr tuag at ei weithwyr ac eraill a all gael eu heffeithio gan ei weithgareddau. Mae'r polisïau hyn wedi'u rhoi ynghyd mewn un llyfryn. Diwygiwyd y polisi ym mis Medi 2010.
- Nod Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri yw cyflawni'r safon uchaf wrth reoli iechyd, diogelwch a lles.

Seinio Rhybudd a chael cwynion gan y cyhoedd

- Mae gan yr Awdurdod Drefn Gwyno y manylir arni ar wefan yr Awdurdod er mwyn i'r cyhoedd gael mynediad ati. Mae'r drefn yn amlinellu sut yr ymdrinnir â chwynion yn fewnol, a sut i fynd â'r mater ymhellach petai'r achwynydd yn anfodlon â'r ymateb cychwynnol. Bydd y Swyddog Monitro yn delio ag unrhyw gwynion a wnaed i'r Ombwdsmon. Yn ôl y drefn, disgwylir i swyddogion ymateb i gwynion o fewn cyfnod penodol a rhoi gwybod i'r achwynydd os na fydd hynny'n bosibl, gan nodi rheswm am hynny.
- At hynny, mae'r Swyddog Monitro yn paratoi adroddiad blynyddol sy'n amlinellu'r cwynion a gyfeiriwyd at yr Ombwdsmon ynghyd â gwaith y Pwyllgor Safonau.
- Mabwysiadodd yr Awdurdod Bolisi Seinio Rhybudd ar 9 Rhagfyr 2009. Nodau'r polisi hwn yw:
    - Rhoi gwybod i'r staff sut i leisio pryderon difrifol.
    - Annog staff i deimlo'n hyderus y gellir lleisio pryderon gwirioneddol heb ofni dial.
    - Sicrhau staff yr ymchwilir yn deg ac yn drwyadl i bryderon dilys.
    - Sicrhau bod y rhai sy'n seinio rhybudd yn cael adborth ynghylch unrhyw gamau a gymerwyd;
    - Disgrifio sut y gellir mynd â mater ymhellach os oes anfodlonrwydd ynglŷn ag ymateb yr Awdurdod.
- Mabwysiadwyd y Strategaeth Gwrth-dwyll a Llygredigaeth ym mis Rhagfyr 2009 ac mae'n cynnwys mesurau sydd wedi'u dylunio i rwystro unrhyw weithred o dwyll neu lygredigaeth a pha gamau y dylid eu cymryd petai hyn yn digwydd. Mae'r strategaeth wedi'i rhannu yn bum rhan:
    1. Diwylliant
    2. Atal
    3. Rhwystro
    4. Canfod ac archwilio
    5. Ymwybyddiaeth a Hyfforddiant

Pennu a datblygu anghenion aelodau ac uwch swyddogion

- Mae Rhaglen Sefydlu ar gyfer Aelodau Newydd yn cynnwys cwrs sefydlu ar gyfer aelodau newydd, hyfforddiant ar faterion cynllunio i aelodau newydd, hyfforddiant ar y cod ymddygiad ynghyd â sesiwn ymwybyddiaeth amgylcheddol. Mae rhaglen hyfforddi a datblygu i aelodau newydd hefyd mewn lle ar gyfer yr holl Aelodau, sy'n cynnwys hyfforddiant mewnol a chyrsiau a gynhelir ar y cyd â chyrff eraill.
- Asesir anghenion hyfforddi ar gyfer yr uwch swyddogion fel rhan o'r drefn werthuso. Pan ddaw anghenion hyfforddiant i'r fei, cymerir camau priodol - enghraifft ddiweddar yw bod y rhan fwyaf o'r tîm rheoli a'r penaethiaid gwasanaeth wedi mynychu cwrs arweinyddiaeth strategol ym Mhrifysgol Bangor.

Sefydlu dulliau cyfathrebu clir â'r gymuned a rhanddeiliaid eraill, gan sicrhau atebolrwydd ac ymgynghoriad agored

- Mae ugain munud wedi'i neilltuo ar ddechrau pob cyfarfod o'r Awdurdod i'r cyhoedd gael cyfle i holi cwestiynau penodol sy'n ymwneud â gwaith yr Awdurdod. Yn ogystal â hyn, mae rhaglenni pwyllgorau'r Awdurdod ar gael ar y wefan ynghyd â'r cofnodion, ac eithrio gwybodaeth sydd wedi'i heithrio.
- Mabwysiadwyd Strategaeth Gyfathrebu ac Ymwybyddiaeth 2009-2012 yn ystod 2009 er mwyn sicrhau bod y cyhoedd yn deall ac yn ymwybodol o'r Parc Cenedlaethol a'r amgylchedd yn gyffredinol. Mae'r Strategaeth yn cynnwys cynllun gweithredu sy'n amlinellu pwy sy'n gyfrifol am gwblhau tasgau, ac erbyn pryd. Amcanion y Strategaeth yw:
    - Gwella dealltwriaeth ac ymwybyddiaeth y cyhoedd o nodweddion arbennig y Parc Cenedlaethol.
    - Estyn allan a bod yn gwbl hygyrch i bawb.
    - Cyfathrebu a gwella'r gefnogaeth tuag at waith yr Awdurdod trwy godi ymwybyddiaeth o'i swyddogaeth a'i amcanion a gwella dealltwriaeth o'i bolisïau a'i flaenoriaethau.
    - Gwella dealltwriaeth o bwysigrwydd yr iaith Gymraeg a threftadaeth ddiwylliannol unigryw'r ardal.
    - Gwella dealltwriaeth o waith a blaenoriaethau'r Awdurdod ymhlith sefydliadau partner, y rhai sy'n llunio barn a gwleidyddion.

Ymgorffori trefniadau llywodraethu da ar gyfer partneriaethau gan adlewyrchu'r rhain yn nhrefniadau llywodraethu'r Awdurdod

- Mae Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri yn cydnabod ac yn derbyn yr angen i weithio mewn partneriaeth yn unol â mentrau Cynulliad Cymru megis "Creu'r Cysylltiadau".
- Caiff yr holl gytundebau partneriaeth arwyddocaol eu llywodraethu trwy gytundeb ffurfiol a llinellau atebolrwydd clir, e.e.
    - Goriad Gwyrdd Eryri
    - Byrddau Gwasanaethau Lleol
    - Wardeinio ar y cyd â CCGC yng Ngwarchodfeydd Natur Cenedlaethol Dyffryn Ardudwy a Harlech.
    - Menter Treftadaeth Tref Dolgellau
    - Mentrau Parciau Cenedlaethol mewn partneriaeth â Chroeso Cymru e.e. Prosiect Twristiaeth Gynaliadwy, Lle i Enaid Gael Llonydd.

- Partneriaeth â chyrff cyhoeddus eraill i ddatblygu canolfan groeso newydd ger Llyn Ogwen

Trefniadau i sicrhau rheolaeth ariannol ddigonol ac effeithiol

- Y Prif Swyddog Cyllid yw'r swyddog sy'n gyfrifol am weinyddu materion ariannol yn unol â gofynion Adran 151 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972.
- Yn ogystal â'r cyfrifoldeb o dan Adran 151 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972, mae gan y Prif Swyddog Cyllid hefyd ddyletswyddau statudol mewn perthynas â gweinyddiaeth a stiwardiaeth ariannol y Cyngor. Ni ellir diystyru'r cyfrifoldeb statudol hwn. Mae'r dyletswyddau statudol ychwanegol hyn yn deillio o:
    - Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988
    - Deddf Llywodraeth Leol a Thai 1989
    - Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2005
    - Deddf Llywodraeth Leol 2003
- Mae'r Prif Swyddog Cyllid yn gyfrifol am:
    - Weinyddu materion ariannol yr Awdurdod yn briodol;
    - Sefydlu a monitro sut y cydymffurfir â safonau rheolaeth ariannol;
    - Adrodd ar gadernid amcangyfrifon, yn ogystal â digonolrwydd y cronfeydd ariannol o dan reolaeth arfaethedig at ddibenion llunio cyfrifiadau cyllidebol.
- Yn unol ag Adran 114 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1988, bydd y Prif Swyddog Cyllid yn adrodd i'r Awdurdod ac i'r archwiliwr allanol os yw o'r farn bod yr Awdurdod, pwyllgor o'r Awdurdod, cydbwyllgor â chynrychiolaeth yr Awdurdod arno, neu un o'i swyddogion:
    - Wedi gwneud, neu ar fin gwneud, penderfyniad sy'n arwain at wariant anghyfreithlon;
    - Wedi gwneud, neu ar fin gwneud, rhywbeth anghyfreithlon sydd wedi, neu a fyddai'n creu colled neu ddiffygiad i'r Awdurdod;
    - Ar fin gwneud cofnod anghyfreithlon yng nghyfrifon yr Awdurdod.

Rhan 4: EFFEITHIOLRWYDD Y FFRAMWAITH LLYWODRAETHU

Mae Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri yn gyfrifol am gynnal, o leiaf unwaith y flwyddyn, adolygiad o effeithiolrwydd ei fframwaith llywodraethu gan gynnwys y system rheolaeth fewnol. Mae'r adolygiad o effeithiolrwydd y system rheolaeth fewnol yn cael ei hysbysu drwy waith yr archwilwyr mewnol a'r rheolwyr gweithredol o fewn yr Awdurdod, sy'n gyfrifol am ddatblygu a chynnal yr amgylchedd llywodraethu, yn ogystal â thrwy sylwadau a wnaed gan yr archwilwyr allanol, ac asiantaethau a chyfarwyddiaethau adolygu eraill.

- Mae'r Awdurdod wedi cynhyrchu Cynllun Rheolaeth 2010-2015 sy'n adnabod gweledigaeth ar gyfer y Parc ac amcanion penodol, ynghyd â sut bydd y rhain yn cael eu gweithredu a'u monitro.
- Rhaid i unrhyw adroddiad a gyflwynir gerbron yr Awdurdod i'w benderfynu fynd ati i nodi'n glir ac yn gryno effaith debygol y penderfyniad ar adnoddau'r Awdurdod.
- Rôl y Pwyllgor Safonau a'r Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau yw sicrhau cydymffurfiaeth a hyrwyddo a chynnal safonau ymddygiad gan yr aelodau.
- Mae Polisi Seinio Rhybudd a Pholisi Gwrth-dwyll a Llygredigaeth yn bodoli ac ar gael i'r aelodau, staff yr Awdurdod a'r cyhoedd ar y wefan. Mae'r rhain yn nodi'r trefniadau i'w dilyn. Bydd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol yn adrodd i'r Pwyllgor Safonau ynghylch y Polisi Seinio Rhybudd bob 12 – 18 mis. Mae'r adroddiad nesaf wedi'i raglennu ar gyfer mis Hydref 2011.
- Mae Rheolau Sefydlog yr Awdurdod yn nodi'r trefniadau ar gyfer pwyllgorau ac mae'r Rheolau Sefydlog: Contractau yn nodi sut i ymdrin â chontractau.
- Mae Adroddiad Blynyddol Swyddfa Archwilio Cymru yn nodi y gwelwyd gwelliant o ran yr amser a gymerir i benderfynu ceisiadau cynllunio, ynghyd â'r amser a gymerir i ymateb i gwynion am achosion o dor-rheolaeth cynllunio.
- Cyflwynodd Swyddfa Archwilio Cymru ei adroddiad ISA260 blynyddol yng nghyfarfod yr Awdurdod ar 15 Medi 2010, a oedd yn cynnwys barn ddiamod ar ddatganiadau ariannol yr Awdurdod a'r nodiadau perthnasol.
- Mae Swyddfa Archwilio Cymru yn cynnal adolygiad blynyddol o ddarparwr y gwasanaeth archwilio mewnol. Yn ei adolygiad diweddaraf, fe ddaeth yr archwiliwr allanol i'r casgliad bod y gwasanaeth Archwilio Mewnol wedi cyrraedd y safonau proffesiynol disgwyliedig.
- Adroddodd y Rheolwr Archwilio Mewnol fod gan yr Awdurdod, yn ei farn ef, fframwaith rheoli cadarn i ddarparu sicrwydd rhesymol parthed cyflawniad effeithiol ac effeithlon o amcanion yr Awdurdod, gan fod y camau a gymerwyd gan yr Awdurdod yn ystod y flwyddyn ariannol i sefydlu a chryfhau rheolaethau mewnol ac i sicrhau bod argymhellion i gywiro gwendidau a bennwyd gan y gwasanaeth Archwilio Mewnol wedi bod yn foddhaol. Roedd hyn yn cynnwys gwaith ar y systemau ariannol lle rhoddwyd sicrwydd llawn, ac nid oedd angen cyflwyno argymhellion.
- Ni fu'r Awdurdod yn destun adolygiad gan yr Ombwdsmon yn dilyn honiadau o gamweinyddu yn ystod 2010/11.
- Mae nifer o gyrff allanol yn cynnal adolygiadau o drefniadau'r Awdurdod. Bydd yr adrannau perthnasol yn talu sylw dyledus i'r materion sydd wedi'u pennu.
- Yn ystod y flwyddyn, mae'r Cyfarwyddwyr a'r Penaethiaid Gwasanaeth wedi gweithio i sefydlu amcanion gwella ar gyfer pob maes gwella trwy ddefnyddio canllawiau a ddarparwyd gan Swyddfa Archwilio Cymru. Bydd y rhain mewn grym yn ystod 2011-2014. Mae cynllun gweithredu ar gyfer cyflawni'r amcanion a dangosyddion perfformiad ar gyfer monitro a yw'r amcanion hyn yn cael eu cyflawni ai peidio. Y meysydd gwella a bennwyd yw:

- Mwy o eglurder ac effeithiolrwydd yn y swyddogaeth gorfodaeth cynllunio;
- Cyfathrebu'n well yn ogystal â chysylltu â chymunedau y tu allan i gynllunio;
- Gwell trefniadau rheoli perfformiad mewnol;
- Cynnig gwell i gwsmeriaid yn y Canolfannau Croeso;
- Mwy a gwell mynediad i gwsmeriaid at wasanaethau a gwybodaeth electronig;
- Mwy o eglurder ac arweiniad i'r defnyddiwr am bolisïau cynllunio trwy fabwysiadu Canllawiau Cynllunio Ategol.

- Mae Adroddiad Gwella Blynyddol Swyddfa Archwilio Cymru yn nodi yn asesiad eleni ei fod wedi ymchwilio i berfformiad yr Awdurdod mewn tri o bump o'i amcanion ar gyfer 2010-11. Fe ddaeth Swyddfa Archwilio Cymru i'r casgliad tra nad oedd modd mesur a oedd gweithgareddau'r Awdurdod yn cael unrhyw effaith o ran ceisio sicrhau gwelliant i nodweddion arbennig y Parc, a bod mwy o gyfleoedd mynediad o ansawdd uchel i bobl o bob gallu i fwynhau tir a dŵr yn y Parc, mae'r trefniadau rheoli wedi gwella ac mae'r Awdurdod wedi llwyddo'n dda i ganolbwyntio ar gyllid, a sicrhau fod yr Awdurdod yn rheoli ei wariant.
- Mae'r Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol yn adrodd ar faterion sy'n deillio o'r Drefn Gwyno yng Nghyfarfod Blynyddol yr Awdurdod.

Rhan 5: MATERION LLYWODRAETHU ARWYDDOCAOL

Mae'r prosesau a amlinellwyd mewn rhannau blaenorol o'r datganiad hwn yn disgrifio'r dulliau a ddefnyddiwyd gan yr Awdurdod i bennu'r materion llywodraethu mwyaf arwyddocaol y bydd angen ymdrin â hwy.

Ar y cyfan, rydym o'r farn bod gan yr Awdurdod drefniadau llywodraethu cadarn mewn lle. Yn unol â Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009, disgwylir i'r Awdurdod gyhoeddi cynllun gwella sy'n nodi ei drefniadau i sicrhau gwelliant parhaus wrth ymgymryd â'i swyddogaethau a sicrhau y cyflawnir ei amcanion gwella. Mae Cynllun Busnes a Gwelliant yr Awdurdod, a gyflwynwyd gerbron yr Awdurdod ar 13 Ebrill 2011, yn nodi'r dull gweithredu fydd yn cael ei fabwysiadu gan yr Awdurdod wrth gyflawni ei fusnes. Mae'r rhain yn cynnwys:

- rôl galluogi â llai o bwyslais ar berchnogaeth a rheolaeth
- osgoi dechrau prosiectau â goblygiadau cynnal a chadw hirdymor
- annog a galluogi cymunedau lleol i gymryd yr awenau a chymryd cyfrifoldeb dros gyflenwi gwasanaethau yn eu hardal
- defnyddio cyfryngau electronig fel y brif ffordd o ddarparu gwasanaethau a gwybodaeth
- dull strategol o ymdrin â thwristiaeth gynaliadwy, addysg amgylcheddol a wardeinio
- dod o hyd i ffrydiau incwm newydd i gefnogi pwrpasau'r Parc a'r Awdurdod.

Mae cynllun gwella'r Awdurdod, sy'n nodi'r trefniadau i sicrhau gwelliant yn unol â gofynion Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 yn cynnwys chwe maes gwella, sef:

Maes Gwelliant / Materion Llywodraethu Arwyddocaol	**Camau i'w cymryd**
1. Gorfodaeth Cynllunio :- a) Bydd gan bobl ddealltwriaeth well ynghylch pam a phryd y cymerir camau gorfodaeth. b) Bydd yn cymryd llai o amser i ddatrys achosion datblygu diawdurdod honedig.	Mae'r Awdurdod yn cydnabod yr angen i: • Weithio â'n pobl trwy edrych ar sut y mae achosion yn cael eu trin ar hyn o bryd a gwneud y drefn yn symlach os oes modd, gan sicrhau gwerth am arian a bod y tîm gorfodaeth yn cael ei gryfhau fel sy'n briodol • Siarad â phobl sy'n dod i gysylltiad â'r tîm gorfodaeth i ddarganfod y ffordd orau i ni wella • Cyhoeddi nodiadau cyfarwyddyd a'u hanfon at bobl sy'n adrodd am achosion datblygu diawdurdod honedig • Sicrhau ein bod yn agored ac yn atebol trwy gyhoeddi ein perfformiad • Gadael i bobl wybod beth sy'n digwydd
2. Cymunedau Bydd gan y cynghorau cymuned a'n rhanddeiliaid allweddol ddealltwriaeth well o'r hyn y mae'r Awdurdod yn ei wneud a nodweddion arbennig y Parc.	Mae'r Awdurdod yn cydnabod yr angen i: • Ddatblygu partneriaethau â rhanddeiliaid allweddol sydd â rhan i'w chwarae i gyflawni'r amcanion yng Nghynllun Rheolaeth y Parc • Sicrhau ein bod yn cefnogi cyfleoedd i bobl ag anabledd, pobl o grwpiau lleiafrifoedd ethnig a phobl o ardaloedd Cymunedau'n Gyntaf cyfagos at y Parc i fwynhau nodweddion arbennig y Parc • Gofyn barn Cynghorau Cymuned a / neu randdeiliaid allweddol lle bo'n briodol yn ystod adegau cynnar paratoi polisïau, rhaglenni a chynlluniau newydd sylweddol, a rhoi ystyriaeth i'w

	barn yn ogystal â rhoi adborth ar y canlyniadau terfynol. • Datblygu cyfleoedd pellach i gynnwys y gymuned, trwy ychwanegu at y cyfarfodydd cyffredinol blynyddol gyda Chynghorau Cymuned a fforymau eraill.
3 Perfformiad :- a) Bydd y trefniadau rheoli perfformiad yn fwy effeithiol i sicrhau ein bod yn cynnal safon ein gwasanaeth yn ystod cyfnod lle bo adnoddau'n lleihau. b) Bydd gan staff ac aelodau ddealltwriaeth well o sut y mae eu gwaith yn cyfrannu at gyflawni blaenoriaethau gwasanaeth ac amcanion gwella'r Awdurdod.	Mae'r Awdurdod yn cydnabod yr angen i: • Egluro'r fframwaith rheoli perfformiad i'r holl staff ac aelodau • Sicrhau bod y rhaglen waith gorfforaethol wedi'i chysylltu â'r blaenoriaethau gwasanaeth ac amcanion gwella • Sicrhau bod cynlluniau tîm a chynlluniau gwaith unigol yn cysylltu â'r rhaglen waith gorfforaethol • Darparu rhaglen ddatblygu bersonol ar gyfer staff, aelodau a gwirfoddolwyr sy'n gwneud y defnydd mwyaf posibl o botensial pob unigolyn â'r adnoddau sydd ar gael
4. Canolfannau Croeso :- Bydd y rhan fwyaf o ymwelwyr â'r Canolfannau Croeso'n fodlon iawn â'r hyn sydd gan y canolfannau i'w gynnig o ran dewis ac ansawdd y nwyddau, y wybodaeth a'r gwasanaeth i gwsmeriaid	Mae'r Awdurdod yn cydnabod yr angen i: • Ddatblygu'r canolfannau fydd yn cael eu cadw dros y tair blynedd nesaf • Sicrhau Rhagoriaeth mewn Gwasanaethau Cwsmeriaid yn y maes hwn • Sicrhau bod yr holl staff yn derbyn hyfforddiant priodol • Sicrhau ein bod yn prynu'r rhan fwyaf o nwyddau o ffynonellau lleol • Cadw stoc o'r hyn y mae ein cwsmeriaid yn ei ddymuno
5. Gwasanaethau Electronig :- a) Mae'r ystod a'r math o wasanaethau sydd ar gael yn electronig yn unol ag anghenion y cyhoedd. b) Bydd defnyddwyr y gwasanaeth electronig yn fodlon iawn â'u profiad.	Mae'r Awdurdod yn cydnabod yr angen i: • Ddatblygu gwasanaethau electronig dros y 3 blynedd nesaf • Symud i sefyllfa lle bydd mwy o drafodion busnes yn digwydd yn electronig dros 3 blynedd • Gweithio gyda phartneriaid i wella Band Eang mewn ardaloedd anghysbell • Sicrhau cynnydd mewn trafodion heb ddefnyddio arian parod
6. Polisi Cynllunio :- Bydd gan bobl ddealltwriaeth well o'r polisïau cynllunio yn y Cynllun Datblygu Lleol	Mae'r Awdurdod yn cydnabod yr angen i: • Baratoi a mabwysiadu Canllawiau Cynllunio Ategol • Trefnu a rhoi pob anogaeth i Asiantau a Chynghorau Cymuned fynychu gweithdai • Cyhoeddi bwletinau ar y we a mwy o gyfarwyddyd • Sicrhau bod yr holl staff perthnasol yn derbyn hyfforddiant priodol er mwyn eu galluogi i roi cyngor i'r cyhoedd

Rhan 6: BARN

Rydym yn bwriadu cymryd camau i ddelio â'r materion uchod yn ystod y flwyddyn nesaf er mwyn gwella ein trefniadau llywodraethu ymhellach. Rydym yn fodlon y bydd y camau hyn yn delio â'r angen i wella a bennwyd yn ein hadolygiad o effeithiolrwydd a byddwn yn monitro eu gweithrediad fel rhan o'n hadolygiad blynyddol nesaf.

ANEURIN PHILLIPS

PRIF WEITHREDWR
AWDURDOD PARC CENEDLAETHOL ERYRI

DYDDIAD *06 - 09 - 2011*

Cyng. CAERWYN ROBERTS

CADEIRYDD
AWDURDOD PARC CENEDLAETHOL ERYRI

DYDDIAD *06 - 09 - 2011*

RHESTR TERMAU

CRONIADAU

Y cysyniad fod incwm a gwariant yn cael ei gydnabod fel y mae'n cael ei ennill neu ei wneud, nid pan fo arian yn cael ei dderbyn neu ei dalu.

TÂL CYFALAF

Taliad i gyfrifon refeniw gwasanaeth i adlewyrchu cost yr asedau sefydlog a ddefnyddir i ddarparu gwasanaeth.

GWARIANT CYFALAF

Gwariant ar gaffael ased sefydlog neu wariant sy'n ychwanegu at werth ased sefydlog presennol, nid ei gynnal yn unig.

DERBYNIADAU CYFALAF

Derbyniadau o ddim llai na £10,000 o werthiant asedau sefydlog. Gellir eu defnyddio ar gyfer cyllido gwariant cyfalaf o'r newydd neu ad-dalu dyled. Ni ellir eu defnuyddio i gyllido gwariant refeniw "dydd i ddydd" arferol.

ASEDAU CYMUNEDOL

Asedau y mae'r Awdurdod yn bwriadu eu dal am byth, nad oes ganddynt oes ddefnyddiol y gellir ei phennu, ac sydd o bosib â chyfyngiadau ar gael gwared â hwy.

RHWYMEDIGAETHAU / ASEDAU AMODOL

Mae'r rhain yn deillio o ddigwyddiad hanesyddol ac sy'nm ddibynnol ar ddigwyddiadau ac amseriad heb sicrwydd iddynt yn y dyfodol cyn y gellir eu cynnwys yn y cyfrifon.

GWARIANT REFENIW A ARIENNIR O GYFALAF O DAN STATUD

Gwariant a ddyrennir fel cyfalaf i bwrpasau ariannu ond nad yw'n arwain at i wariant gael ei gario yn y fantolen fel ased sefydlog . Yn gyffredinol grantiau yw'r rhain a gwariant ar eiddo nad yw'n perthyn i'r Awdurdod.

CYNLLUN BUDDIANT DIFFINIEDIG

Cynllun pensiwn ble bo rheolau'r cynllun yn diffinio'r buddiannau'n annibynnol ar y cyfraniadau sy'n daladwy, ac nad yw'r buddiannau'n uniongyrchol gysylltiedig â buddsoddiadau'r cynllun.

PRYDLES GYLLID

Prydles sy'n trosglwyddo holl risgiau a gwobrwyon perchnogaeth ased sefydlog i'r prydleswr.

PRYDLES WEITHREDOL

Prydles heblaw prydles ariannol

ASEDAU SEFYDLOG

Asedau diriaethol sy'n rhoi buddiannau i'r awdurdod a'r gwasanaethau y mae'n ddarparu am ragor nag un flwyddyn.

OES DDEFNYDDIOL

Y cyfnod y mae'r awdurdod yn cael buddiannau o ddefnydd ased sefydlog.

BYRFODDAU

CIPFA	Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifo
LASAAC	Local Authority (Scotland) Accounts Advisory Committee
IFRS	Safon Adrodd Ariannol Rhyngwladol